The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# ADRODDIAD ar y GOBLYGIADAU i SAFLEOEDD EWROPEAIDD

## Fferm Wynt Alltraeth Arfaethedig Mona

Adroddiad gan yr Awdurdod Archwilio a baratowyd gyda chymorth y Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010137

19 Tachwedd 2024

## TABL CYNNWYS

Commented [JS1]: Update before publishing

**TABL CYNNWYS ..... I**

**1 CYFLWYNIAD ..... 1**
1.1 CEFNDIR ..... 1
1.2 DOGFENNAU A DDEFNYDDIWYD I LYWIO'R RIES HWN ..... 2
1.3 CWESTIYNAU'R RIES ..... 2
1.4 MATERION HRA A YSTYRIWYD YN YSTOD YR ARCHWILIAD ..... 3

**2 EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL ..... 5**
2.1 SAFLEOEDD EWROPEAIDD A YSTYRIWYD ..... 5
2.2 LLWYBRAU EFFAITH POSIBL ..... 7
2.3 EFFEITHIAU AR Y CYD ..... 9
2.4 ASESIAD YR YMGEISYDD (CAM YMGEISIO) ..... 10
2.5 MATERION CYN-ARCHWILIAD AC ARCHWILIAD ..... 13
2.6 CRYNODEB O GANLYNIADAU'R ARCHWILIAD O RAN SGRINIO ..... 32

**3 EFFEITHIAU NIWEIDIOL AR GYFANRWYDD ..... 33**
3.1 AMCANION CADWRAETH ..... 33
3.2 ASESIAD YR YMGEISYDD ..... 34
3.3 MATERION CYN-ARCHWILIAD AC ARCHWILIAD ..... 36
3.4 CRYNODEB O GANLYNIADAU'R ARCHWILIAD O RAN EFFEITHIAU NIWEIDIOL AR GYFANRWYDD ..... 62

**4 RHANDDIRYMIADAU O'R RHEOLIADAU ..... 64**
4.1 TROSOLWG ..... 64

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Mona Offshore Wind Limited (yr Ymgeisydd) wedi gwneud cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) o dan adran 37 Deddf Cynllunio 2008 ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth arfaethedig Mona ('y Datblygiad Arfaethedig'). Ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, penodwyd Awdurdod Archwilio (ExA) i gynnal Archwiliad o'r cais. Bydd yr ExA yn adrodd ar ei ganfyddiadau a'i gasgliadau ac yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol ynglŷn â'r penderfyniad i'w wneud ar y cais.

1.1.2 O ran ceisiadau a gyflwynir o dan gyfundrefn Deddf Cynllunio 2008, yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y 'Rheoliadau Cynefinoedd') a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 ('y Rheoliadau Morol Alltraeth') sy'n berthnasol y tu hwnt i ddyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig, h.y. 12 môr-filltir. Bydd y canfyddiadau a'r casgliadau ynglŷn â materion cadwraeth natur a adroddir gan yr ExA yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Rheoliadau Morol Alltraeth.

1.1.3 Mae'r Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) hwn yn cofnodi a chyfeirio at y wybodaeth am effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd a ddarparwyd yn y cais DCO ac a gyflwynwyd yn ystod yr Archwiliad gan yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant, hyd at Ddyddiad Cau 4 (D4) yr Archwiliad (4 Tachwedd 2024). Nid yw'n ddogfen annibynnol a dylid ei darllen ar y cyd â'r dogfennau Archwiliad y cyfeirir atynt. Pan gyflwynir cyfeiriadau at ddogfennau mewn cromfachau sgwâr [] yn nhestun yr adroddiad hwn, gellir dod o hyd i'r cyfeiriad hwnnw yn Llyfrgell yr Archwiliad a gyhoeddwyd ar y wefan 'Dod o hyd i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol'.

1.1.4 At ddibenion y RIES hwn, yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd a pholisïau perthnasol y Llywodraeth, mae'r term 'safleoedd Ewropeaidd' yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), ACAau ymgeisiol, ACAau arfaethedig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), AGAau posibl, Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol, safleoedd Ramsar rhestredig ac arfaethedig, a safleoedd a amlygwyd neu sy'n ofynnol i ddigolledu ar gyfer effeithiau niweidiol ar unrhyw un o'r safleoedd hyn. Er hwylustod darllen, mae'r RIES hwn hefyd yn defnyddio'r term 'safle Ewropeaidd' i olygu 'safleoedd Ewropeaidd' a ddiffinnir yn Rheoliadau Cynefinoedd 2017 a 'Safleoedd Morol Ewropeaidd' a ddiffinnir yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017, oni nodir fel arall. Mae 'Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig' yn cyfeirio at ACAau ac AGAau sy'n perthyn i'r Deyrnas Unedig sydd eisoes wedi'u dynodi o dan y Cyfarwyddebau ac unrhyw safleoedd ychwanegol a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.1.5 Cyhoeddir y RIES hwn er mwyn sicrhau yr ymgynghorir yn ffurfiol â phartïon â buddiant, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori) (CNC (C)) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), sef y Cyrff Cadwraeth Natur Priodol

(ANCBau), ar faterion yn ymwneud â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar y broses hon at ddibenion Rheoliad 63(3) y Rheoliadau Cynefinoedd a Rheoliad 28(4) y Rheoliadau Morol Alltraeth.

1.1.6 Mae hefyd yn ceisio amlygu a chau unrhyw fylchau yn nealltwriaeth yr ExA o safbwyntiau partïon â buddiant ar faterion Rheoliadau Cynefinoedd, mewn perthynas â'r holl safleoedd Ewropeaidd a nodweddion cymwys, cyn belled ag y bo'n bosibl, er mwyn cefnogi argymhelliad cadarn a thrwyadl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

1.1.7 Mae sylwadau ar y RIES wedi'u hamserlennu ar gyfer Dyddiad Cau 5 (3 Rhagfyr 2024).

1.1.8 Yn dilyn ymgynghoriad, bydd yr ExA yn ystyried yr ymatebion wrth wneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol a byddant ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â'r adroddiad hwn. Ni fydd y RIES yn cael ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad.

## 1.2 Dogfennau a ddefnyddiwyd i lywio'r RIES hwn

1.2.1 Roedd Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yr Ymgeisydd (yr Adroddiad HRA) yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- HRA Cam 2 Gwybodaeth i Gefnogi Asesiad Priodol (ISAA) Rhan 1 – Cyflwyniad a Chefndir [APP-031];
- HRA Cam 2 ISAA Rhan 2 – Asesiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) [APP-032] ('Adroddiad ACA Cam 2 yr HRA');
- HRA Cam 2 ISAA Rhan 3 – Asesiadau Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) [APP-033], a ddiwygiwyd yn [REP2-010] ('Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA');
- HRA Cam 1 Adroddiad Sgrinio [APP-034], a ddiwygiwyd yn [REP2-012] ('Adroddiad Sgrinio yr HRA'); a
- HRA Matricsau Cyfanrwydd [APP-035], a ddiwygiwyd yn [REP2-014].

1.2.2 Roedd yr Adroddiad HRA yn cael ei ategu a'i lywio gan sawl atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol y cyfeirir atynt ynddo (h.y. [APP-086 i APP-096].

1.2.3 Yn ogystal â'r Adroddiad HRA, mae'r RIES yn cyfeirio at sylwadau a gyflwynwyd i'r Archwiliad gan bartïon â buddiant, Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) a dogfennau eraill yr Archwiliad, fel y bo'n berthnasol. Rhoddir trosolwg o'r dogfennau a gyflwynwyd hyd yma sy'n berthnasol i'r HRA yn Adrannau 2.5 a 3.3 o'r RIES hwn. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Llyfrgell yr Archwiliad.

## 1.3 Cwestiynau'r RIES

1.3.1 Mae'r RIES hwn yn cynnwys cwestiynau a gyfeirir yn bennaf at yr Ymgeisydd, y JNCC a CNC (C), a ddangosir mewn *testun italig glas, wedi'i danlinellu*.

1.3.2 Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir yn y RIES a sylwadau a dderbynnir arno'n werthfawr iawn i'r ExA er mwyn deall safbwyntiau partïon â buddiant ar faterion Rheoliadau Cynefinoedd. Pwysleisir y bydd ymatebion i faterion eraill a drafodir yn y RIES yn cael eu croesawu llawn cymaint. Wrth ymateb i'r cwestiynau o fewn y prif gorff testun, cyfeiriwch at y paragraff blaenorol, os gwelwch yn dda. Wrth ymateb i'r cwestiynau yn Tablau 2.4 i 2.6 a 3.1 i 3.4, cyfeiriwch at y rhif cyfeirnod yn y golofn gyntaf, os gwelwch yn dda.

## 1.4 Materion HRA a ystyriwyd yn ystod yr Archwiliad

1.4.1 Mae'r Archwiliad hyd yma wedi canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Adareg alltraeth – y dulliau a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd mewn agweddau amrywiol ar yr asesiadau, gan gynnwys:
  - tiriogaethau chwilota am fwyd;
  - dosrannu dosbarthiadau oedran;
  - dulliau dosrannu effeithiau y tu allan i'r tymor bridio;
  - cynnwys adar sy'n cael seibiant o fridio;
  - yr ymagwedd at ddiffiniadau tymhorol, yn enwedig ar gyfer asesiadau risg gwrthdrawiad;
  - y cyfraddau dadleoli a marwolaethau a ddefnyddiwyd;
  - yr ymagwedd at asesu ar y cyd, gan gynnwys llenwi bylchau ar gyfer prosiectau hanesyddol a chywirdeb y ffigurau a ddefnyddiwyd.
- Mamaliaid môr:
  - effeithiau sŵn ar lamhidyddion o ganlyniad i glirio Ordnans Heb Ffrwydro (UXO) trwy danio uchel;
  - anafiadau ac aflonyddu o ganlyniad i sŵn tanddwr uwch yn sgil defnyddio llongau;
  - effeithiau ar y cyd posibl o ganlyniad i wrthdaro â llongau; a
- Sicrhau mesurau lliniaru ar gyfer cynefinoedd Atodiad I a throchyddion gyddfgoch.

## 1.5 Cais am Newid

1.5.1 Ar 1 Tachwedd 2024, cyflwynodd yr Ymgeisydd Gais am Newid [CR1-001 i CR1-013] a oedd yn cynnwys diwygiadau/newidiadau i elfennau ar y tir o'r Datblygiad Arfaethedig.

1.5.2 Nid oedd Cais yr Ymgeisydd am Newid yn nodi a fyddai unrhyw oblygiadau i'r HRA. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r asesiad a gyflwynwyd yn y Datganiad Amgylcheddol, roedd yr Ymgeisydd o'r farn nad oedd y Ceisiadau am Newid

yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol newydd neu wahanol o ran ecoleg ar y tir neu adareg ar y tir a rhynglanwol [CR1-001].

1.5.3 Ar adeg cyhoeddi'r RIES, nid yw'r ExA wedi derbyn y Cais am Newid.

# 2 EFFEITHIAU ARWYDDOCAOL TEBYGOL

## 2.1 Safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd

**Cyflwyniad**

2.1.1 Nid yw'r Datblygiad Arfaethedig yn gysylltiedig â rheoli unrhyw safle Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur, nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.

2.1.2 Mae Adran 1.2.6 yr Adroddiad Sgrinio HRA [APP-034] yn amlinellu'r broses a ddilynwyd gan yr Ymgeisydd i amlygu'r safleoedd Ewropeaidd a'r nodweddion i'w cynnwys yn yr asesiad sgrinio. Roedd hyn wedi'i seilio ar y meini prawf canlynol:

- Maen Prawf 1: Safleoedd Ewropeaidd neu Ramsar sy'n gorgyffwrdd â ffin safle'r Datblygiad Arfaethedig.
- Maen Prawf 2: Safle Ewropeaidd neu Ramsar sydd â nodweddion/rhywogaethau cymwys symudol (e.e. adar, mamaliaid môr Atodiad II, pysgod mudol, dyfrgwn) y mae eu tiriogaeth (e.e. chwilota am fwyd, mudo, gaeafu, bridio neu diriogaeth cynefin naturiol) yn gorgyffwrdd â ffin safle'r Datblygiad Arfaethedig.
- Maen Prawf 3: Safleoedd Ewropeaidd neu Ramsar a/neu nodweddion cymwys o ddiddordeb sydd wedi'u lleoli o fewn Parth Dylanwad (ZoI) posibl effeithiau sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig (e.e. colli/tarfu ar gynefin, sŵn a risg gwrthdrawiad).

**Safleoedd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig**

2.1.3 Amlygodd Adroddiad Sgrinio HRA yr Ymgeisydd [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012] 76 o safleoedd Ewropeaidd o fewn NSN Deyrnas Unedig i'w cynnwys yn yr asesiad. Dangosir lleoliadau safleoedd Ewropeaidd yn berthynol i'r Datblygiad Arfaethedig ar Ffigurau 1.9, 1.10 ac 1.11 yr Adroddiad Sgrinio HRA [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012].

2.1.4 Strwythurwyd yr Adroddiad yn ôl gwahanol grwpiau derbynyddion, a rhoddwyd manylion y safleoedd Ewropeaidd perthnasol yn y canlynol:

- Tabl 1.4: Cynefinoedd Atodiad I (alltraeth ac arfordirol) (dangosir un safle ar Ffigur 1.3);
- Tabl 1.5: Rhywogaethau pysgod ymfudol Atodiad II (dangosir naw safle ar Ffigur 1.5);
- Tabl 1.6: Mamaliaid môr Atodiad II (dangosir 15 o safleoedd ar Ffigur 1.9);
- Tablau 1.8 i 1.11: Nodweddion adaregol alltraeth (dangosir 45 o safleoedd ar Ffigur 1.10); a

- Thabl 1.12: Nodweddion adaregol ar y tir (dangosir wyth safle ar Ffigur 1.11).

2.1.5 Mae rhai safleoedd Ewropeaidd wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad ar gyfer mwy nag un grŵp derbynnydd, h.y. nodweddion adaregol ar y tir ac ar y môr.

2.1.6 Ni amlygwyd unrhyw safleoedd Ewropeaidd a ddynodwyd ar gyfer cynefinoedd Atodiad I ar y tir na rhywogaethau Atodiad II ar y tir i'w cynnwys yn yr asesiad.

2.1.7 Yn yr Archwiliad hyd yma, nid yw partïon â buddiant wedi amlygu unrhyw safleoedd Ewropeaidd ychwanegol o fewn NSN y Deyrnas Unedig i'w cynnwys yn yr asesiad.

2.1.8 Amlygodd yr Ymgeisydd safleoedd Ewropeaidd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i'w hystyried yn yr HRA. Mae CNC (C) a'r JNCC wedi cofrestru fel unigolion â buddiant ac wedi cymryd rhan yn yr Archwiliad hyd yma. Cadarnhaodd y JNCC [RR-033] fod ei rôl cynghori statudol yn ymwneud â chadwraeth natur yn nyfroedd alltraeth y Deyrnas Unedig yn unig (y tu hwnt i'r terfyn tiriogaethol).

2.1.9 Ar 17 Mehefin 2024, ysgrifennodd yr ExA at NatureScot, Natural England ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr Archwiliad fel 'unigolyn arall' [OD-018] [OD-016][OD-010].

2.1.10 Ymatebodd NatureScot [AS-024] drwy ddweud ei fod wedi "*dod ar draws llawer o wallau, gwahaniaethau rhwng testun a thablau, diffyg cydymffurfio â chanllawiau perthnasol, a diffyg eglurder yn yr asesiad yn gyffredinol. Rydym wedi trafod hyn gyda Chyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCBau) eraill sy'n adrodd am yr un problemau ag ansawdd y cais. Ni allwn gynnig beirniadaeth fanwl ar y cais yn ei gyflwr presennol*".

2.1.11 Nododd fod HRA yr Ymgeisydd yn defnyddio trothwyon gwahanol ar gyfer sbarduno PVA o rywogaethau cymhwysol perthnasol o AGAau yr Alban a gofynnodd i effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn yr Alban gael eu hasesu gan ddilyn y canllawiau Albanaidd perthnasol. (https://www.nature.scot/professionaladvice/planning-and-development/planning-and-development-advice/renewableenergy/marine-renewables/advice-marine-renewables-development)

2.1.12 Ar y Dyddiad Cau 3, ymatebodd yr Ymgeisydd [REP3-043] gan amlygu'r cyflwyniadau Archwiliad yr oedd wedi'u gwneud hyd yn hyn i fynd i'r afael â gwallau a nodwyd gan CNC (A), JNCC a'r Ymgeisydd ei hun. Esboniodd ei fod wedi dilyn canllawiau CNC a JNCC gan fod y Datblygiad Arfaethedig yn dod o fewn eu hawdurdodaeth a nododd na wnaeth NatureScot ymateb i'r ymgynghoriad statudol ym mis Mehefin 2023. Amlygodd yr Ymgeisydd ble roedd ei asesiad wedi gwyro oddi wrth ganllawiau'r Alban ond ni chynigiodd asesiadau diwygiedig.

2.1.13 Cyhoeddodd yr ExA gais Rheol 17 am ragor o wybodaeth [PD-015] ar 16 Hydref 2024 yn gwahodd NatureScot i gadarnhau (gyda rhesymeg) erbyn

Dyddiad Cau 4 (a yw'n cytuno ai peidio â chasgliad yr Ymgeisydd i beidio ag unrhyw AEoI o unrhyw safle Ewropeaidd o fewn yr awdurdodaeth yr Alban o Fferm Wynt Alltraeth Mona yn unig, neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill). Ni ymatebodd NatureScot.

2.1.14 Ymatebodd Natural England [PDA-041] i'r hysbysiad, ond ni roddodd sylwadau ar HRA yr Ymgeisydd.

2.1.15 Ni ymatebodd DAERA i'r hysbysiad, a dywedodd yr Ymgeisydd [C1.10.4 REP3-093] nad oedd DAERA wedi ymateb i'r ymgynghoriad statudol cyn-ymgeisio ychwaith.

**Safleoedd nad ydynt yn y Deyrnas Unedig**

2.1.16 Yn ogystal, amlygodd Adroddiad Sgrinio HRA yr Ymgeisydd [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012] y safleoedd Ewropeaidd canlynol nad ydynt yn y Deyrnas Unedig i'w cynnwys yn yr asesiad:

- 11 o safleoedd yn Iwerddon a 17 o safleoedd y Ffrainc a ddynodwyd ar gyfer nodweddion cymwys mamaliaid môr Atodiad II; a
- 12 o safleoedd yn Iwerddon a ddynodwyd ar gyfer nodweddion adaregol alltraeth.

2.1.17 Daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd (AEoI) yr holl safleoedd nad ydynt yn y Deyrnas Unedig [APP-031][APP-032][APP-033][APP-035].

2.1.18 Nid yw Ynys Manaw yn dod o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ond mae'n rhan o gonfensiwn Ramsar. Nid oedd dogfennau HRA yr Ymgeisydd yn mynd i'r afael â safleoedd Ramsar wedi'u lleoli ar Ynys Manaw. Yn dilyn cwestiynau'r ExA, esboniodd yr Ymgeisydd [C1.10.1 REP3-062] ei fod wedi ystyried Ramsar Ballaugh Curragh yn ei ymarfer cyn-sgrinio, ond cafodd ei hepgor gan nad oes potensial ar gyfer llwybr effaith ar dderbynyddion mewn perthynas ag unrhyw rai o nodweddion y safle. Esboniodd nad yw'r pum safle Ramsar arfaethedig a amlygwyd gan yr ExA wedi'u cynnwys ar fapiau data a ddarparwyd gan Lywodraeth Ynys Manaw. Nid oedd o'r farn bod llwybr effaith ar dderbynyddion ar gyfer dau o'r safleoedd, a nododd fod y tri sy'n weddill yn rhan o Warchodfeydd Natur Morol Ynys Manaw y rhoddwyd ystyriaeth briodol iddynt yn y Datganiad Amgylcheddol. Nododd yr Ymgeisydd hefyd nad oedd Llywodraeth Ynys Manaw wedi gofyn i'r safleoedd hyn gael eu hystyried yn ystod yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio nac yn ei sylw perthnasol [RR-018].

2.1.19 Dim ond safleoedd o fewn Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig yr ymdrinnir â nhw yn y RIES hwn.

## 2.2 Llwybrau effaith posibl

2.2.1 Rhoddodd yr Adroddiad Sgrinio HRA [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012] fanylion am y llwybrau effaith posibl o'r Datblygiad Arfaethedig yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Crynhoir y llwybrau effaith o'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun yn Nhabl 2.1 isod. Mae'r matricsau sgrinio yn [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012] yn manylu ar ba lwybrau effaith a

ystyriwyd ar gyfer pob safle Ewropeaidd a nodwedd gymwys (h.y. nid oedd yr Ymgeisydd wedi asesu'r rhai hynny sydd wedi'u tywyllu).

***Tabl 2.1 Llwybrau ar gyfer Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) a aseswyd gan yr Ymgeisydd***

| Grŵp derbynnydd | Llwybr LSE |
|---|---|
| Cynefinoedd Atodiad I (gweler Adran 1.4.3 [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012]) | • Colli/tarfu ar gynefin dros dro<br>• Cynnydd mewn crynodiad gwaddodion crog a dyddodion cysylltiedig<br>• Rhyddhau halogyddion sydd ynghlwm wrth waddodion<br>• Colli cynefin islanw yn y tymor hir<br>• Cyflwyno strwythurau artiffisial<br>• Newidiadau i brosesau ffisegol<br>• Meysydd electromagnetig<br>• Gwres o geblau trydanol tanfor<br>• Risg uwch o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol<br>• Symud is-haenau caled ymaith<br>• Llygredd damweiniol |
| Rhywogaethau pysgod mudol Atodiad II (gweler Adran 1.4.4 [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012]) | • Colli/tarfu ar gynefin dros dro<br>• Cynnydd mewn crynodiad gwaddodion crog a dyddodion cysylltiedig<br>• Sŵn tanddwr sy'n effeithio ar dderbynyddion pysgod a physgod cregyn<br>• Colli cynefin islanw yn y tymor hir<br>• Cyflwyno strwythurau artiffisial a chytrefu strwythurau caled<br>• Meysydd electromagnetig<br>• Aflonyddu/ailysgogi halogyddion sydd ynghlwm wrth waddodion<br>• Llygredd damweiniol |
| Mamaliaid môr Atodiad II (gweler Adran 1.4.5 [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012]) | • Anafiadau ac aflonyddu o ganlyniad i sŵn tanddwr yn sgil gosod seilbyst, tanio UXO ac arolygon ymchwilio safle<br>• Anafiadau ac aflonyddu o ganlyniad i sŵn tanddwr yn sgil defnyddio llongau a gweithgareddau eraill |

| Grŵp derbynnydd | Llwybr LSE |
|---|---|
| | • Risg uwch o anafiadau o ganlyniad i wrthdaro â llongau<br>• Newidiadau i'r ysglyfaeth sydd ar gael<br>• Newidiadau i loywder dŵr<br>• Sŵn gweithredol<br>• Meysydd electromagnetig<br>• Llygredd damweiniol<br>• Cynnydd mewn crynodiad gwaddodion crog a dyddodion cysylltiedig |
| Nodweddion adaregol alltraeth (gweler Adran 1.4.6 [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012]) | • Colli/tarfu ar gynefin dros dro ac yn barhaol a chynnydd mewn crynodiad gwaddodion crog<br>• Aflonyddu a dadleoli o ganlyniad i sŵn a gludir yn yr aer, a phresenoldeb llongau a seilwaith<br>• Risg gwrthdrawiad<br>• Rhwystro symudiad<br>• Newidiadau i'r ysglyfaeth sydd ar gael<br>• Llygredd damweiniol |
| Nodweddion adaregol ar y tir (gweler Adran 1.4.7 [APP-034 a ddiwygiwyd yn REP2-012]) | • Colli/tarfu ar gynefin dros dro a newid i'r ysglyfaeth sydd ar gael<br>• Colli cynefin/dadleoli yn barhaol<br>• Aflonyddu a dadleoli o ganlyniad i bresenoldeb cerbydau/peiriannau trwm<br>• Risg gwrthdrawiad |

2.2.2 Asesodd yr Ymgeisydd yr effeithiau posibl yn ystod adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw a datgomisiynu. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn y byddai'r holl effeithiau posibl yn ystod y cam datgomisiynu yn debyg i'r rhai hynny a amlinellwyd yn y cam adeiladu [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012], ac efallai'n llai na nhw. Yr unig eithriad oedd effeithiau ychwanegol ar gynefinoedd Atodiad I, sy'n unigryw i'r cam datgomisiynu, o ganlyniad i symud is-haenau caled ymaith a cholli cynefin yn y tymor hir/yn barhaol (paragraff 1.4.3.57 [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012]).

2.2.3 Yn yr Archwiliad hyd yma, nid yw partïon â buddiant wedi amlygu unrhyw lwybrau effaith ychwanegol i'w cynnwys yn yr asesiad.

## 2.3 Effeithiau ar y cyd

2.3.1 Roedd Adran 1.4 yr Adroddiad Sgrinio HRA [APP-034, a ddiwygiwyd yn REP2-012] yn manylu ar ymagwedd drosfwaol yr Ymgeisydd at asesu effeithiau ar y cyd. O ran sgrinio, datganodd nad oes angen ystyried

safleoedd/nodweddion yr amlygwyd LSE 'ar ei phen ei hun' arnynt; yn hytrach, mae ar gyfer y rhai hynny y daethpwyd i'r casgliad nad oes LSE arnynt. Nid oedd yr Adroddiad Sgrinio HRA wedi amlygu unrhyw gynlluniau na phrosiectau penodol a gynhwyswyd yn yr asesiad ar y cyd.

2.3.2 Manylir ar faterion a drafodwyd yn ystod yr Archwiliad ynglŷn â'r asesiad ar y cyd yn Adrannau 2.5 a 3.3 y RIES hwn.

## 2.4 Asesiad yr Ymgeisydd (cam ymgeisio)

2.4.1 Cyflwynwyd casgliadau sgrinio'r Ymgeisydd ar adeg y cais DCO yn [APP-034]. Darparwyd matricsau sgrinio ar gyfer pob safle Ewropeaidd a ystyriwyd yn Adran 1.4, gyda chrynodeb yn Nhabl 1.125.

**Safleoedd na chasglodd yr Ymgeisydd unrhyw LSE ar yr holl nodweddion cymhwyso**

2.4.2 Ar bwynt y cais, daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar holl nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeaidd a fanylir yn Nhabl 2.2 isod.

**Tabl 2.2 Safleoedd y daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai LSE ar yr holl nodweddion cymwys**

| Grŵp derbynnydd | Safle Ewropeaidd |
|---|---|
| Mamaliaid môr Atodiad II | • ACA Ynysoedd Treshnish<br>• ACA Ynysoedd Monach<br>• ACA Gogledd Rona |
| Nodweddion adaregol alltraeth | • AGA Fair Isle<br>• AGA Foula<br>• AGA Ynysoedd Forth<br>• AGA Ynysoedd Farne<br>• AGA Hermaness, Saxa Vord a Valla Field<br>• AGA Bae Morecambe ac Aber Afon Duddon<br>• AGA Noss |
| Nodweddion adaregol ar y tir ac ar y môr | • AGA Cilfach Tywyn<br>• Ramsar Cilfach Tywyn<br>• AGA Aber Afon Dyfrdwy<br>• Ramsar Aber Afon Dyfrdwy<br>• AGA Aber Dyfi<br>• AGA Aber Afon Hafren<br>• Ramsar Aber Afon Hafren<br>• AGA Traeth Lafan, Bae Conwy |

2.4.3 Nid yw casgliad yr Ymgeisydd o ddim LSE o ran y safleoedd yn Nhabl 2.2 uchod wedi cael ei herio hyd yma yn yr Archwiliad.

**Safleoedd y cwblhaodd yr Ymgeisydd LSE ar eu cyfer ar rai neu bob un o'r nodweddion cymhwyso**

Ar adeg y cais, daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o achosi effeithiau sylweddol, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar un neu fwy o nodweddion cymhwyso safleoedd Ewropeaidd y DU a nodir yn Nhabl 2.3 isod . Gweler Tabl 1.125 o [APP-034] ar gyfer y nodwedd(ion) cymhwyso a'r effaith(ion) a sgriniwyd ynddynt.

**Tabl 2.3 Safleoedd Ewropeaidd o fewn NSN y DU y nodwyd**

| Grŵp derbynyddion | Safle Ewropeaidd |
|---|---|
| Atodiad I cynefinoedd | • Menai Strait and Conwy Bay/ Y Fenai a Bae Conwy SAC |
| Atodiad II pysgod diadromous | • Dee Estuary SAC/Aber Dyfrdwy SAC<br>• River Dee and Bala Lake/Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid SAC<br>• River Ehen SAC<br>• River Eden SAC<br>• Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn SAC<br>• River Kent SAC<br>• River Derwent and Bassenthwaite Lake SAC<br>• Solway Firth SAC<br>• River Bladnoch SAC |
| Atodiad II mamaliaid morol | • North Anglesey Marine/ Gogledd Môn Forol SAC<br>• North Channel SAC<br>• Pen Llŷn a`r Sarnau/ Lleyn Peninsula and the Sarnau SAC<br>• West Wales Marine/ Gorllewin Cymru Forol SAC<br>• Strangford Lough SAC<br>• Murlough SAC<br>• Cardigan Bay/Bae Ceredigion SAC<br>• The Maidens SAC<br>• Pembrokeshire Marine/ Sir Benfro Forol SAC |

| **Grŵp derbynyddion** | **Safle Ewropeaidd** |
|---|---|
| | • Bristol Channel Approaches/ Dynesfeydd Môr Hafren SAC<br>• Lundy SAC<br>• Isles of Scilly Complex SAC |
| Nodweddion adaregol alltraeth | Cymru<br>• Skomer, Skokholm and the seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro SPA<br>• Grassholm SPA<br><br>Lloegr<br>• Bowland Fells SPA<br>• Flamborough and Filey Coast SPA<br>• Irish Seafront SPA<br>• Isles of Scilly SPA<br>• Ribble and Alt Estuaries SPA<br>• Ribble and Alt Estuaries Ramsar<br><br>Lloegr / Cymru<br>• Liverpool Bay SPA<br>• Aberdaron Coast and Bardsey Island SPA / Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli SPA<br><br>Yr Alban<br>• Ailsa Craig SPA<br>• Buchan Ness to Collieston SPA<br>• Canna and Sanday SPA<br>• Cape Wrath SPA<br>• East Caithness Cliffs SPA<br>• Flannan Isles SPA<br>• Fowlsheugh SPA<br>• Handa SPA<br>• Mingulay and Berneray SPA<br>• North Caithness Cliffs SPA<br>• North Colonsay and Western Cliffs SPA<br>• North Rona and Sula Sgeir SPA<br>• Rum SPA |

| Grŵp derbynyddion | Safle Ewropeaidd |
|---|---|
| | • St Kilda SPA<br>• Sule Skerry and Sule Stack SPA<br>• Shiant Isles SPA<br>• Troup, Pennan and Lions Heads SPA<br>• West Westray SPA<br><br>Gogledd Iwerddon<br>• Copeland Islands SPA<br>• Rathlin Island SPA |

## 2.5 Materion Cyn-Archwiliad ac Archwiliad

**Materion y cytunodd ANCBau arnynt cyn i'r Archwiliad ddechrau**

2.5.1 Cynghorodd y JNCC [RR-033] fod LSE yn annhebygol ar gyfer safleoedd llamhidyddion, heblaw am ACA Gogledd Môn Forol, o ganlyniad i'w pellter oddi wrth y Datblygiad Arfaethedig.

2.5.2 Cytunodd CNC (C) [RR-011][REP1-056] â'r ymarfer sgrinio a gynhaliwyd mewn perthynas â nodweddion pysgod mudol y safleoedd a warchodir yng Nghymru; ACA Aber Afon Dyfrdwy, ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, ac ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn (h.y. bod llwybr LSE yn bodoli).

**Trosolwg Archwiliad**

2.5.3 Roedd casgliadau sgrinio cychwynnol yr Ymgeisydd a gyflwynwyd yn [APP-034] wedi cael eu herio gan bartïon â buddiant a'u holi gan yr ExA yn ystod yr Archwiliad o ran y grwpiau derbynyddion canlynol:

- mamaliaid môr (y prosiect ar ei ben ei hun neu ar y cyd) (gweler Tabl 2.5 isod); ac
- adareg alltraeth (y prosiect ar ei ben ei hun neu ar y cyd).

*Adareg alltraeth*

2.5.4 Roedd CNC (C) [REP1-056] a'r JNCC [REP2-096] yn gwneud sylwadau niferus ar ymagwedd yr Ymgeisydd at yr asesiad, a mynegodd y ddau barti ddiffyg hyder yn yr ymarfer sgrinio LSE a'r asesiad Cam 2 o ganlyniad. Roedd y sylwadau'n ymwneud ag ymagwedd yr Ymgeisydd at agweddau amrywiol ar yr asesiadau, gan gynnwys dosrannu dosbarthiadau oedran; dulliau dosrannu effeithiau y tu allan i'r tymor bridio; cynnwys adar sy'n cael seibiant o fridio; yr ymagwedd at ddiffiniadau tymhorol, yn enwedig ar gyfer asesiadau risg gwrthdrawiad; ac asesiad dadleoli o safleoedd dynodedig nad yw'n ymdrin

â'r ystod lawn o gyfraddau dadleoli a marwolaethau a gynghorir. Roedd y JNCC a CNC (C) o'r farn y dylai'r asesiadau gael eu diweddaru gan ddefnyddio'r ymagwedd a gynghorir gan yr SNCB. Roedd y materion hyn yn ymwneud â'r cam sgrinio ac asesu effeithiau ar gyfanrwydd, ac fe'u manylir yn Nhablau 2.4 a 3.43, yn ôl eu trefn, isod.

2.5.5 Wrth ymateb i ddiweddariadau'r Ymgeisydd, roedd y JNCC [REP2-096][REP2-097] yn pryderu y gallai gwallau niferus yn asesiad yr Ymgeisydd waethygu ei gilydd ac y dylid ystyried y goblygiadau ar gyfer yr asesiad cyfan, yn hytrach nag ar gyfer pob gwall yn unigol.

2.5.6 O ystyried nifer y dogfennau sy'n ymwneud ag adareg alltraeth sydd wedi'u cyflwyno hyd yma yn yr Archwiliad, rhoddir crynodeb isod er hwylustod.

2.5.7 Cyn Arholiad a Dyddiad Cau 1: Ymatebodd yr Ymgeisydd i'r pryderon JNCC a CNC (A) yn [PDA-008] a darparodd Restr Gwallau [REP1-044].

2.5.8 Dyddiad Cau 2: Diweddarodd yr Ymegisydd y dogfennau perthnasol canlynol i fynd i'r afael â'r materion yn y rhestr gwallau:

- Cyfrol 2, Pennod 5: Adareg Alltraeth [REP2-016] (a ddiwygiwyd yn ddiweddarach yn [REP4-007], gweler isod);
- Cyfrol 6, Atodiad 5.2: Adareg Alltraeth: Adroddiad technegol dadleoli [REP2-018] (subsequently revised in REP4-009, see below);
- Cyfrol 6, Atodiad 5.3: Adareg Alltraeth: Adroddiad technegol modelu risg gwrthdrawiad [REP2-020];
- Cyfrol 6, Atodiad 5.5: Adareg Alltraeth: Adroddiad technegol dosrannu [REP2-022];
- Cyfrol 6, Atodiad 5.6: Adareg Alltraeth: Adroddiad technegol dadansoddi hyfywedd poblogaeth [REP2-024];
- Adroddiad Sgrinio Cam 1 yr HRA [REP2-012];
- Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA [REP2-010]; a
- Matricsau Cyfanrwydd yr HRA [REP2-014].

2.5.9 Yn ogystal, cyflwynodd 'Restr Newidiadau i'r Dogfennau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA) a HRA Adareg Alltraeth' [REP2-087] a oedd yn disgrifio'r holl newidiadau i'r dogfennau HRA adareg alltraeth hyd at Ddyddiad Cau 2. Nid oedd yr Ymgeisydd o'r farn bod y diwygiadau a wnaed i'r dogfennau yn newid y casgliadau gwreiddiol a gyflwynwyd.

2.5.10 Nododd dogfennaeth HRA ddiwygiedig Dyddiad Cau 2 yr LSEs canlynol (yn ogystal â'r rhai a gyflwynwyd yn y dogfennau HRA gwreiddiol):

- AGA Trwyn Wicklow – gwylanod coesddu (aflonyddu a risg gwrthdrawiad yn ystod gweithredu ac effeithiau ar y cyd);

- AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro – gwylanod coesddu (aflonyddu a dadleoli a risg gwrthdrawiad yn ystod gweithredu ac effeithiau ar y cyd) a gwylanod cefnddu lleiaf (risg gwrthdrawiad);
- AGA Bae Morecambe ac Aber Afon Duddon – gwylanod cefnddu lleiaf (risg gwrthdrawiad yn ystod gweithredu ac effeithiau ar y cyd);
- AGA Ynysoedd Skellig – huganod y gogledd (aflonyddu a risg gwrthdrawiad yn ystod gweithredu ac effeithiau ar y cyd); ac
- AGA Ynysoedd Shiant – gwylogod (aflonyddu yn ystod gweithredu ac effeithiau ar y cyd).

2.5.11 Roedd yr Ymgeisydd o'r farn nad oedd y diwygiadau a wnaed i'r dogfennau yn newid y casgliadau gwreiddiol a gyflwynwyd mewn perthynas â AEoI.

2.5.12 Dyddiad Cau 3: CNC (C) [REP3-090] o'r farn bod asesiad yr Ymgeisydd yn anodd ei ddilyn o hyd yn y dogfennau HRA a ddiweddarwyd erbyn Dyddiad Cau 2, a gofynnodd i dablau gael eu llunio ar gyfer pob safle Ewropeaidd "*fel y gellir dilyn trwodd yn llawn o'r cyfrifiadau o ffigurau heb eu dosrannu i'r effeithiau a ddosrannwyd a'r cyfrannau canlyniadol (%) o farwolaethau sylfaenol y mae'r effeithiau'n cyfateb iddynt*". Gofynnodd am eglurder ynghylch anghysondebau yn y dogfennau.

2.5.13 Darparodd y JNCC sylwadau manwl mewn perthynas ag asesiad yr Ymgeisydd yn [REP3-085].

2.5.14 Cyflwynodd yr Ymgeisydd ddau nodyn gwall arall:

- Nodyn Gwall [REP3-075]; a
- Nodyn Egluro Errata Adareg Alltraeth [REP3-073]).

2.5.15 Cyflwynodd yr Ymgeisydd hefyd 'Gwybodaeth ategol adareg alltraeth yn unol â chyngor SNCB' [REP3-059] i gyfeirio at ble y gellir dod o hyd i wybodaeth asesu a manylion ategol pellach, ac i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn unol â chyngor CNC (A) a JNCC . Roedd yn cynnwys asesiadau cyfunol diwygiedig a Dadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth (PVA) (perthnasol i asesiad Cam 2). Roedd yr Ymgeisydd o'r farn nad oedd y diwygiadau yn newid y casgliadau gwreiddiol a gyflwynwyd yn nogfennau'r cais.

2.5.16 Dyddiad cau 4: Roedd JNCC [REP4-101][REP4-102] a CNC (A) [REP4-105] o'r farn nad oedd gan yr Ymgeisydd 'wybodaeth ategol adareg alltraeth yn unol â chyngor SNCB' [REP3-059] yr eglurder yr oedd wedi gofyn amdano yn flaenorol ac roedd yn ymddangos nad oedd yn dilyn cyngor yr SNCB. Nid oeddent yn gallu ailadrodd gwerthoedd yr Ymgeisydd a darparwyd sylwadau manwl i'r Ymgeisydd roi sylw iddynt mewn cyflwyniadau yn y dyfodol.

2.5.17 Cyflwynodd yr Ymgeisydd y dogfennau a ganlyn i fynd i'r afael â phryderon CNC (A) a'r JNCC a godwyd gyda'r Ymgeisydd mewn cyfarfodydd a gohebiaeth y tu allan i'r Archwiliad:

- Dogfennau diwygiedig:
  - Cyfrol 2, Pennod 5: Adareg alltraeth [REP4-007]*;

  - Cyfrol 6, Atodiad 5.2: Adroddiad technegol dadleoli Adareg Alltraeth [REP4-009]*;
  - Gwybodaeth ategol adareg alltraeth yn unol â chyngor SNCB [REP4-031]; ac
  - Nodyn technegol llenwi'r bwlch [REP4-029].
- Dogfennau newydd:
  - Nodyn egluro dosrannu adaryddiaeth alltraeth [REP4-042];
  - Adolygiad o CEA adareg alltraeth ac asesiad cyfun [REP4-027];
  - Taflen Errata [REP4-088] (mewn perthynas ag Adroddiad HRA Cam 2 HRA [REP2-012], Adroddiad Sgrinio'r HRA [REP2-012], yr Adroddiad Technegol Dosrannu Adareg Alltraeth [REP2-022] a'r Adroddiad PVA Alltraeth REP2-024]).

* Eglurodd yr Ymgeisydd [REP4-050] bod dogfennau Errata [REP2-087] a [REP3-073], o ganlyniad i'r diwygiadau hyn, wedi darfod.

**Materion pellach a drafodwyd yn ystod yr Archwiliad**

2.5.18 Crynhoir materion pellach a godwyd yn yr Archwiliad hyd yma, neu'r rhai y mae'r ExA yn ceisio eglurder yn eu cylch, mewn perthynas ag LSEs yn Nhablau 2.4 i 2.6 isod.

2.5.19 Mae'r ExA yn deall bod materion lliw gwyrdd yn cael eu datrys, a bod materion lliw oren heb eu datrys.

2.5.20 Sylwch nad yw materion sy'n ymwneud â semanteg/mân eglurhad wedi'u cynnwys.

***Tabl 2.4: Adareg alltraeth – materion a godwyd yn yr Archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant o ran ymarfer sgrinio'r Ymgeisydd o LSE (yn unigol ac ar y cyd)***

| Rhif Cyfeirnod | Mater | Manylion | Sylw/cwestiwn gan yr ExA |
|---|---|---|---|
| **Y sefyllfa sylfaenol** | | | |
| 2.4.1 | Adar drycin Manaw | Roedd RSPB Cymru [RR-071] o'r farn bod ymdrech Arolwg Digidol o'r Awyr (DAS) yr Ymgeisydd yn annhebygol o nodweddu gweithgarwch adar drycin Manaw yn briodol ar safle'r cais. Dywedodd nad oedd yn hyderus ynglŷn â'r ffigurau dwysedd sylfaenol ar gyfer adar drycin Manaw a gyflwynwyd, ac felly ei bod yn amhosibl dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn ag arwyddocâd effeithiau.<br>Fodd bynnag, roedd yr Ymgeisydd [PDA-008] o'r farn bod ei arolygon yn ddigonol a nododd y defnyddiwyd sawl ffynhonnell ddata i bennu'r sefyllfa sylfaenol.<br>Yn dilyn cwestiynau'r ExA, cydnabu CNC (C) [C1.17.3 REP3-093] a'r JNCC [C1.17.3 REP3-084] gyfyngiadau'r DAS mewn perthynas â rhywogaethau cyfnosol a nosol, fel adar drycin Manaw. Fodd bynnag, roedd y ddau barti'n fodlon bod yr arolwg DAS penodol i safle yn adlewyrchu nodweddion sylfaenol adar drycin Manaw.<br>Ni wnaeth RSPB Cymru sylw pellach ar y mater, er bod y mater wedi'i nodi fel pwynt trafod parhaus o fewn SoCG Dyddiad Cau 2 [REP2-088]. | Mae'r ExA yn nodi nad yw'r mater hwn wedi'i ddatrys gyda'r RSPB Cymru. |
| **Nodweddion cymwys** | | | |
| 2.4.2 | AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro | Cynghorodd y JNCC [RR-033] [REP1-066] a CNC (C) [RR-011] fod y nodweddion cymwys yn yr Adroddiad Sgrinio HRA [APP-034] yn ymddangos yn anghywir. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] wallau, ond nid oedd o'r farn bod y gwahaniaethau'n cyfrannu at wall yn yr asesiad o effeithiau. Dywedodd fod yr holl rywogaethau y gellid effeithio arnynt o bosibl wedi cael eu hasesu; felly, roedd y casgliadau'n ddilys o hyd. Diwygiodd yr Adroddiad Sgrinio HRA [REP2-012] ac Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA [REP2-010] yn unol â hynny. | |
| **Asesiad dadleoli** (sydd hefyd yn berthnasol i asesiadau Cam 2) | | | |
| 2.4.3 | Palod, gwylogod a llursod – tiriogaeth chwilota am fwyd | Nid oedd y JNCC [RR-033][REP1-066] yn cytuno â'r diriogaeth chwilota am fwyd a ddarparwyd ar gyfer palod, gwylogod a llursod yn Nhabl 1.7 yr Adroddiad Sgrinio HRA [APP-034]. Roedd y JNCC o'r farn ei bod yn aneglur p'un a gynhwyswyd yr AGAau cywir yn yr ymarfer sgrinio o ran y rhywogaethau hyn.<br>Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] fod y tiriogaethau chwilota am fwyd anghywir wedi cael eu cyflwyno yn [APP-034], a diwygiodd yr Adroddiad Sgrinio HRA wedi'i ddiweddaru [REP2-012] yn unol â hynny. Cadarnhaodd na ddylai unrhyw AGAau ychwanegol gael eu cynnwys yn yr ymarfer sgrinio a'i fod yn hyderus yng nghasgliadau'r Adroddiad HRA.<br>O ran palod yn benodol, cynghorodd y JNCC [RR-033] [REP1-066][REP2-097] y dylai'r diriogaeth chwilota am fwyd yn Nhabl 5 Woodward *et al.* (2019) (137.1 ± 128.3 = 265.4km) gael ei chymhwyso i bob AGA. Roedd yn pryderu efallai nad oedd AGAau a oedd yn cynnwys palod fel nodwedd gymwys wedi cael eu trin yn gywir ar y cam sgrinio. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Ymgeisydd [PDA-008] [REP2-081][REP3-036] nad oes unrhyw AGAau rhwng 250.8 (yr ystod chwilota gychwynnol a ddefnyddiwyd ganddo) a 265.4km y gellid bod wedi'u heithrio o'r dogfennau cais, a bod yr holl safleoedd a amlygwyd gan y JNCC [REP1-066][REP2-097] wedi cael eu hystyried ar yr adeg ymgeisio. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cadarnhaodd y JNCC [REP3-086] wedi hynny ei fod yn fodlon bod yr ymarfer sgrinio HRA wedi amlygu'r AGAau perthnasol sydd o fewn tiriogaeth chwilota am fwyd palod. | |
| 2.4.4 | Palod – amcangyfrifon digonedd Brig Tymhorol Cymedrig (y tu allan i'r tymor bridio) | Cynghorodd y JNCC [RR-033][REP1-066] a CNC (C) [RR-011] ei bod yn ymddangos bod amcangyfrifon digonedd Brig Tymhorol Cymedrig anghywir wedi cael eu cyfrifo ar gyfer palod y tu allan i'r tymor bridio, ac felly y gallai'r marwolaethau dadleoli a ragfynegwyd fod yn anghywir.<br>Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] y gwahaniaeth a chadarnhaodd y dylai'r brig cymedrig y tu allan i'r tymor bridio fod yn 22 o adar, nid O ac adlewyrchodd hyn yn yr Adroddiad Sgrinio HRA wedi'i ddiweddaru [REP2-012]. Cadarnhaodd [REP2-081] mai'r effaith flynyddol wedi'i chywiro ar balod o ganlyniad i ddadleoli oedd 0 (0 i 2) o adar (yn seiliedig ar 30% dadleoli ac 1% marwolaethau i 70% dadleoli a 10% marwolaethau). Cyfrifodd yr Ymgeisydd [REP3-036] farwolaethau blynyddol o 0.1 (50% dadleoli 50% ac 1% marwolaethau) a fyddai'n effeithio ar <0.1 o adar o bob un o'r pum AGA a ystyriwyd. Nid oedd o'r farn bod angen dosrannu ac ni chynhwysodd unrhyw safleoedd Ewropeaidd ychwanegol ar gyfer palod yn yr ymarfer sgrinio.<br>Fodd bynnag, cyfrifodd y JNCC [REP2-097][REP3-085][REP3-086] 3 marwolaeth flynyddol (yn seiliedig ar 70% dadleoli a 10% marwolaethau) o'r prosiect ar ei ben ei hun. Cynghorodd, yn unol ag ymagwedd yr Ymgeisydd ei hun, y dylai effeithiau ar balod gael eu dosrannu i AGAau, ac os yw'r effeithiau a ddosrannwyd yn fwy na 0.0 o farwolaethau, y dylai'r nodwedd gael ei symud ymlaen i Gam 2 (fel y gwnaed ar gyfer gwylanod cefnddu lleiaf a gwylanod y penwaig).<br>Cytunodd yr Ymgeisydd [REP3-036] â chyfrifiadau'r JNCC, sef 70% dadleoli a 10% marwolaethau, ond nid oedd o'r farn bod dosrannu'r effaith i bum safle tymor bridio a naw safle y tu allan i'r tymor bridio yn | *C.a) A all yr Ymgeisydd gadarnhau'r pum safle bridio a'r naw safle y tu allan i'r tymor bridio sy'n berthnasol i balod?*<br>*C.(b) Mae'r ExA yn nodi bod Ffigur 1.1 o Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA [REP2-010] yn nodi, lle mae >0.0 o adar wedi'u heffeithio, na ellir diystyru LSE. A all yr Ymgeisydd esbonio pam nad yw wedi dilyn y fethodoleg hon?*<br>*(c) A yw JNCC/ CNC (A) yn ystyried y dylid dynodi LSE ar gyfer unrhyw safle Ewropeaidd gyda phalod yr Iwerydd yn nodwedd gymhwyso?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gymesur â'r risg. Daeth i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith fesuradwy o'r prosiect ar ei ben ei hun. | |
| 2.4.5 | Adar drycin Manaw – amcangyfrifon digonedd Brig Tymhorol Cymedrig<br><br>(sydd hefyd yn berthnasol i asesiadau Cam 2) | Amlygodd CNC (C) [RR-011] wahaniaethau rhwng dogfennau cais amrywiol o ran yr amcangyfrifon digonedd Brig Tymhorol Cymedrig ar gyfer adar drycin Manaw (tymhorau mudo'r gwanwyn a'r hydref).<br><br>Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] y gwahaniaeth yn ystod tymor mudo'r gwanwyn ond roedd o'r farn bod amcangyfrif brig tymor mudo'r hydref, sef 182 o adar drycin Manaw, yn gywir. Fodd bynnag, anghytunodd CNC (C) [REP1-056] ac ystyriodd y byddai'r amcangyfrif brig cymedrig ar gyfer tymor mudo'r hydref yn 13.<br><br>Cytunodd yr Ymgeisydd â CNC (C) wedi hynny a diwygiodd y rhifau brig cymedrig tymhorol yn yr Adroddiad Sgrinio HRA wedi'i ddiweddaru [REP2-012] a diwygiodd Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA [REP2-010]. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP2-080] nad yw'r diwygiadau i'r dogfennau'n newid y casgliadau. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |
| 2.4.6 | Cyfraddau dadleoli ac ystodau marwolaethau<br><br>(sydd hefyd yn berthnasol i asesiadau Cam 2) | Cymhwysodd yr Ymgeisydd [APP-057] gyfraddau 50% dadleoli ac 1% marwolaethau ar draws y safle a llain glustogi 2km ar gyfer carfilod ac adar drycin Manaw. Argymhellodd gyfraddau 70% dadleoli ac 1% marwolaethau ar gyfer huganod.<br><br>Cynghorodd y JNCC [RR-033][REP1-066][REP2-097] a CNC (C) [RR-011] [REP1-056] y dylid cyflwyno amrywiaeth o gyfraddau dadleoli ac ystodau marwolaethau (h.y. cyfyngau hyder). Dywedodd y JNCC fod y dystiolaeth yn awgrymu bod ystod o gyfraddau dadleoli'n digwydd wrth ffermydd gwynt gweithredol ac nad oes tystiolaeth empirig ar gael ar hyn o bryd o gyfraddau marwolaethau adar a ddadleolwyd. Dywedodd y JNCC [REP1-066], wrth asesu cyfraddau unigol, ei bod yn anodd gwybod p'un a allai unrhyw gyfuniad o gyfraddau dadleoli a marwolaethau arwain at effeithiau o fwy nag 1% o farwolaethau sylfaenol ar gyfer unrhyw | *C. A yw'r JNCC a CNC (A) yn fodlon bod ystod briodol o ddadleoli a marwolaethau wedi'u cyflwyno yn [REP4-031] i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud penderfyniad gwybodus?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | nodwedd o unrhyw AGA, a ph'un a ddylai unrhyw nodwedd AGA fod wedi cael ei symud ymlaen i Ddadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth.<br>Ym marn CNC (C) [REP1-056], nid yw'r Ymgeisydd wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau ei gyfraddau a ffefrir ac mae gwerthoedd unigol yn golygu bod perygl o 'fanwl gywirdeb ffug'. Credai fod ystod o effeithiau posibl yn ystyried yr ansicrwydd mawr ynglŷn â chyfraddau ac effeithiau dadleoli. Cynghorodd ystod o gyfraddau dadleoli o 30%-70% ar draws llain glustogi 2km ar gyfer carfilod ac adar drycin Manaw, ac ystod ddadleoli o 60-80% ar gyfer huganod. Dywedodd CNC (C) mai prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am ganlyniadau dadleoli i unigolion, felly dylid asesu cyfraddau marwolaethau yn amrywio o 1-10% ar gyfer pob rhywogaeth mewn asesiadau dadleoli.<br>Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] y defnyddiwyd y gwerthoedd effaith lleiafsymiol (h.y. y cyfraddau dadleoli a marwolaethau isaf) ar gam, ond cadarnhaodd na fyddai unrhyw safle ychwanegol wedi cael ei symud ymlaen i Gam 2 pe byddai ystod wedi cael ei chyflwyno. At hynny, ystyriodd fod y cyfraddau mwyaf priodol wedi cael eu defnyddio ac y byddai'n rhy ragofalus defnyddio'r effeithiau dadleoli mwyaf, nad oes cyfiawnhad gwyddonol iddynt.<br>Cadarnhaodd CNC (C) [REP1-056] a'r JNCC [REP2-097][REP3-086] na fyddent yn seilio eu cyngor ar y senario achos gwaethaf yn unig, ond gwnaethant ailadrodd eu safbwyntiau y dylid darparu ystod o gyfraddau dadleoli a marwolaethau. Roeddent yn ceisio matricsau adleoli a ddosrannwyd i AGAau i helpu i bennu p'un a ddylai unrhyw nodwedd AGA fod wedi cael ei symud ymlaen i Ddadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth.<br>Erbyn Dyddiad Cau 3, cyflwynodd yr Ymgeisydd yr effeithiau dadleoli a gwrthdrawiad wedi'u dosrannu gan ddefnyddio ymagwedd seiliedig ar ystod ar gyfer y prosiect ar ei ben ei hun ac ar y cyd, yn unol â chyngor yr | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | SNCBau yn Adran 1.5 'Gwybodaeth ategol am adareg alltraeth yn unol â chyngor yr SNCB' [REP3-059]. | |
| 2.4.7 | Dadleoliad gwylanod coesddu | Asesodd yr Ymgeisydd ddadleoli gwylanod coesddu yn y dogfennau cais ar gais y JNCC yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio. Fodd bynnag, dywedodd CNC (A) nad oes angen unrhyw asesiad gwylan goesddu ar gyfer dadleoli oherwydd sylfaen dystiolaeth annigonol [REP1-056].<br>Diweddarwyd yr asesiad dadleoli yn 'Gwybodaeth ategol adareg alltraeth yn unol â chyngor SNCB' [REP3-059]. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod diffyg tystiolaeth ar gyfer dadleoli 30-70% a marwolaethau 1-10% ac felly cyflwynodd ddull amgen o ddadleoli 30% a 3% o farwolaethau (yn unol â chanllawiau NatureScot).<br>Cydnabu JNCC [REP4-102] amrywioldeb o amgylch ymateb ymddygiadol yr wylan goesddu, gyda thystiolaeth o atyniad a dadleoliad, felly dadleuodd yr angen am asesiad gwrthdrawiad a dadleoli. Roedd o'r farn bod tystiolaeth yn cefnogi cyfraddau dadleoli a argymhellir o 30% i 70%. | *C.a) A all yr Ymgeisydd ddarparu asesiad o ddadleoli gwylanod coesddu gan gymhwyso'r cyfraddau dadleoli a argymhellir gan y JNCC o 30% i 70%?*<br>*b) A fyddai unrhyw safleoedd Ewropeaidd ychwanegol yn cael eu sgrinio i mewn o ganlyniad i gymhwyso'r cyfraddau dadleoli a argymhellir gan y JNCC?*<br>*c) A fyddai unrhyw newid i gasgliadau asesiad Cam 2 mewn perthynas â'r wylan goesddu?* |
| | | Esboniodd fod trothwyon sŵn dyddiol a thymhorol ar gyfer y safle. Nododd ymhellach mai'r Cwmpas Dyfais Atal Effeithiol (EDR) ar gyfer clirio UXO trwy danio uchel yw 26km, sy'n golygu y gallai aflonyddu o ganlyniad i glirio trwy danio uchel yn ardal yr aráe effeithio ar lamhidyddion ACA Gogledd Môn Forol sydd 23.67km i ffwrdd. Nid oedd y JNCC yn cytuno y dylai clirio UXO gael ei gynnwys yn y DCO a'r Drwydded Forol dybiedig (dML).<br><br>Roedd yr Ymgeisydd [REP2-081] o'r farn bod gweithgareddau clirio UXO yn cael eu rheoli'n ddigonol yn y dML. Wrth gymhwyso'r EDR 26km, dywedodd y byddai'r gorgyffyrddiad gofodol ag ACA Gogledd Môn Forol yn fach iawn (2.03% o'r ardal gyfan) ac wedi'i gyfyngu am gyfnod dros dro o 22 o ddiwrnodau (yn seiliedig ar y dybiaeth achos gwaethaf ragofalus o un gweithgaredd clirio y dydd). Er bod yr asesiad yn defnyddio ffigurau rhagofalus ar gyfer y senario dylunio mwyaf (h.y. 907kg x 22 UXO yn cael eu tanio ar gyfradd o un y dydd), nid oedd o'r farn y byddai'r aflonyddwch yn fwy na'r trothwy aflonyddu 20% dyddiol na'r trothwy 10% o ardal berthnasol y safle yn ystod y tymor. Nid oedd yr Ymgeisydd o'r farn bod aflonyddu ymddygiadol mor bwysig ag effeithiau niweidiol gan fod maint yr effaith yn para am gyfnod byr iawn (1 eiliad) ar gyfer pob digwyddiad clirio ac felly bod unrhyw aflonyddu ymddygiadol ar anifeiliaid yn debygol o fod yn gyfyngedig i 'adwaith dychryn byrhoedlog'.<br><br>Ailadroddodd y JNCC [REP3-086] ei gyngor na ddylai clirio UXO gael ei gynnwys fel gweithgaredd trwyddedig yn y DCO/dML ac y dylid ymgeisio amdano mewn trwydded forol ar wahân yn lle hynny. Fodd bynnag, byddai hefyd yn cefnogi senario lle mae'r DCO/DML yn nodi y dylai'r holl waith clirio UXO gael ei gyfyngu i ddulliau sŵn isel [C1.17.9 REP3-084]. | *gael ei gynnwys fel gweithgaredd trwyddedig yn y DCO/dML.*<br><br>*Mae'r Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr (UWSMS) amlinellol [APP-202] a'r Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr amlinellol [APP-207] yn datgan y bydd technegau clirio UXO trwy danio isel yn cael eu hystyried fel prif fesur lliniaru posibl.*<br><br>*a) A all yr Ymgeisydd esbonio ym mha amgylchiadau na fyddai modd clirio trwy danio isel?*<br><br>*b) A all yr Ymgeisydd esbonio pa brosesau a fyddai'n cael eu dilyn i bennu p'un a fyddai technegau clirio trwy danio isel neu uchel yn cael eu defnyddio?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nododd yr Ymgeisydd [REP4-086] ei safbwynt ar glirio UXO a chyfiawnhad dros ei gynnwys fel gweithgaredd trwyddedadwy (gan ddefnyddio dulliau clirio lefel uchel ac isel) yn y dDCO a thrwydded forol CNC. Cadarnhaodd y byddai'r Ymgeisydd yn blaenoriaethu dulliau lefel isel, ond roedd o'r farn bod angen i ddulliau lefel uchel barhau i fod yn opsiwn i sicrhau y gellir cynnal yr holl weithgareddau clirio angenrheidiol heb fod angen ceisio caniatâd ar wahân a'r posibilrwydd o oedi yn y rhaglen. | c) *At y JNCC: Mae'r Ymgeisydd wedi dod i'r casgliad na fyddai senario achos gwaethaf o glirio trwy danio uchel yn aflonyddu'n fwy na'r trothwy aflonyddu 20% dyddiol na'r trothwy 10% o ardal berthnasol y safle yn ystod y tymor. A all y JNCC esbonio pam nad yw'n gallu cytuno ar ddim AEoI ar y sail hon?* |
| 3.2.4 | Clirio UXO – sawl ymgais | Ceisiodd y JNCC [REP1-066] eglurhad ynglŷn â ph'un a fyddai ceisiadau ychwanegol i glirio dyfeisiau unigol yn cynyddu nifer y diwrnodau pryd y gallai gwaith clirio ddigwydd (a fyddai'n cyfrif tuag at y trothwy tymhorol), neu a allai ceisiadau ychwanegol gael eu cwblhau o fewn yr un diwrnod. Cynghorodd y JNCC hefyd fod angen i'r ddau opsiwn gael eu hystyried ar y cyd â gweithgareddau swnllyd eraill sy'n digwydd o fewn y safle ar yr un pryd.<br>Cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP2-081] y disgwylir i weithrediadau clirio sy'n cynnwys sawl ymgais gael eu cwblhau mewn un diwrnod. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys, ond byddai'n gwerthfawrogi cadarnhad gan y JNCC. |
| 3.2.5 | Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr (UWSMS)/ MMMP | Nid oedd y JNCC [RR-033] [REP1-066] o'r farn bod yr MMMP amlinellol [APP-207] (sy'n canolbwyntio'n unig ar anafiadau i famaliaid môr) yn addas i'r diben. Gwnaeth nifer o sylwadau ar gynnwys yr MMMP amlinellol a'r UWSMS amlinellol [APP-202], gan | *C. Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys, ond byddai'n gwerthfawrogi* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gynnwys mewn perthynas â pharthau lliniaru, systemau lleihau sŵn a'r hierarchaeth liniaru.<br><br>Gwnaeth CNC (C) [REP1-056] sylwadau tebyg ar yr UWSMS amlinellol.<br><br>Ymatebodd yr Ymgeisydd [REP2-080][REP2-081] i'r pryderon hyn yn unigol. Cadarnhaodd y byddai'r MMMP terfynol (a fyddai'n atodiad i'r UWSMS derfynol) yn cael ei ddatblygu yn unol â'r MMMP amlinellol mewn ymgynghoriad â CNC a chyrff cadwraeth natur statudol perthnasol. Sicrheir hyn yn Atodlen 14, Amod 18(1)(h) y DCO drafft. Yn yr un modd, cadarnhaodd y byddai geiriad yr UWSMS derfynol yn cael ei ddatblygu ar ôl cael caniatâd yn unol â'r UWSMS amlinellol [APP-202]) mewn ymgynghoriad â CNC a rhanddeiliaid statudol perthnasol. Sicrheir hyn yn Atodlen 14, Amod 20 y DCO drafft a disgwylir iddo gael ei sicrhau yn y drwydded forol annibynnol gan CNC ar gyfer yr asedau trosglwyddo. | *cadarnhad gan CNC (C) a'r JNCC ynglŷn â ph'un a ellir ystyried bod yr MMMP a'r UWSMS amlinellol yn addas i'r diben ac yn ddigon manwl i roi hyder y gellir eithrio AEoI ar lamhidyddion.* |
| 3.2.6 | Anafiadau i famaliaid môr ac aflonyddu arnynt o ganlyniad i sŵn tanddwr uwch yn sgil defnyddio llongau | Nododd CNC (C) [RR-011][REP1-056][REP3-090] ei bod yn ymddangos bod niferoedd amcangyfrifedig yr anifeiliaid yr aflonyddir arnynt gan longau, ac unrhyw gasgliadau dilynol, wedi cael eu seilio ar radiysau effaith sefydlog – h.y. sy'n cyfateb i longau nad ydynt yn symud. Fel y cyfryw, mae'r niferoedd amcangyfrifedig yr aflonyddir arnynt ar gyfer llong ar adeg benodol yn unig. O ystyried y gellid disgwyl i longau symud lleoliad, ystyrir y gallai amcangyfrif niferoedd yn seiliedig ar radiysau effaith sefydlog arwain at danamcangyfrif y niferoedd dyddiol yr aflonyddir arnynt, a thanamcangyfrif yr ardal ddyddiol gyffredinol a lenwir â sŵn; mae hyn yn ofynnol i gymharu â'r trothwyon ardal ac amser ar gyfer effaith niweidiol ar ACAau llamhidyddion. Awgrymodd fethodoleg amgen i bennu nifer yr anifeiliaid yr effeithir arnynt.<br><br>Roedd yr Ymgeisydd [PDA-009][REP3-038] o'r farn y byddai asesu ôl troed aflonyddwch ar gyfer llong sy'n symud fel ardal barhaus o | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bwynt A i B ar hyd llwybr morgludiant posibl, yn seiliedig ar gwmpas effaith rhagofalus, yn arwain at oramcangyfrif yr effaith gan na fyddai'n ystyried adferiad cyflym anifeiliaid wrth i'r llongau fynd heibio ac felly ni fyddai'n ffordd briodol o asesu aflonyddwch.<br><br>Wedi hynny, nododd CNC (C) [REP1-056] ymrwymiad yr Ymgeisydd i ddatblygu a chadw at EMP Alltraeth (i'w sicrhau trwy'r DCO, Atodlen 14, Rhan 2, Amod 18(e)) a ddylai liniaru'r rhan fwyaf o'r effeithiau yn ei farn ef. Gan gyfeirio at y drafodaeth fethodolegol, dywedodd [REP3-090] "*nid yw'n cael effaith sylweddol ar ein cytundeb â'r casgliadau cyffredinol na fydd effaith arwyddocaol / effaith niweidiol ar boblogaethau mamaliaid môr o ganlyniad i'r dulliau lliniaru a fydd yn cael eu defnyddio. Yn ei hanfod, gwahaniaeth barn yw hyn ynglŷn â'r ffordd orau o gyfrifo niferoedd yr anifeiliaid yr aflonyddir arnynt*." | |
| 3.2.7 | Nodweddion sŵn ergydiol | Nid oedd CNC RR-011] yn cytuno bod newidiadau i nodweddion ergydiol sŵn ergydiol ar bellter yn awgrymu y dylid ystyried bod y trothwyon aflonyddwch ar gyfer sŵn gosod seilbyst yn rhagofalus ar bellter hir (h.y. ychydig gilometrau). Ymatebodd yr Ymgeisydd [PDA-008] drwy ddweud bod y datganiad hwn yn cyd-fynd â'r canllawiau gwyddonol diweddaraf. Wedi hynny, cytunodd CNC (C) [REP1-056] nad oedd y gwahaniaethau barn yn cael effaith sylweddol ar y casgliadau. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

***Tabl 3.3: Adareg alltraeth – materion allweddol a godwyd yn yr Archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant mewn perthynas ag asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar gyfanrwydd (yn unigol ac ar y cyd)***

| Rhif Cyfeirnod | Llwybr effaith posibl/mater | Manylion y mater | Sylw/cwestiwn gan yr ExA |
|---|---|---|---|
| **Risg gwrthdrawiad** | | | |
| 3.3.1 | Cyfraddau osgoi | Dywedodd y JNCC [RR-033] [REP1-066] nad yw cyfraddau osgoi Ozsanlav-Harris (2023) yn gyfraddau'r JNCC a bod cyngor ar gyfraddau osgoi wedi'i gynnwys yng nghanllawiau ar y cyd Natural England/SNCB ar CRM.<br>Cadarnhaodd yr Ymgeisydd [PDA-008] cyfraddau osgoi Ozsanlav-Harris (2023) y cyfeiriwyd ar gam a chywirodd y gwahaniaethau yn Adroddiad Sgrinio Cam 1 yr HRA [REP2-012] a Rhan Tri ISAA Cam 2 yr HRA: Asesu AGAau a safleoedd Ramsar [REP2-010]. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |
| 3.3.2 | Asesiad risg gwrthdrawiad – adar drycin Manaw | Roedd RSPB Cymru [RR-071] o'r farn nad oedd asesiad yr Ymgeisydd yn adlewyrchu ymddygiad posibl adar drycin Manaw yng nghyffiniau tyrbinau, yn enwedig atyniad i'r goleuadau sy'n ofynnol ar gyfer tyrbinau.<br>Amlygodd yr Ymgeisydd [PDA-008] fylchau gwybodaeth allweddol ynglŷn â dryswch a ysgogir gan olau ac roedd o'r farn bod ei asesiad yn wyddonol ddilys ac yn gadarn.<br>Cadarnhaodd CNC (C) [C1.17.4 REP3-093] a'r JNCC [C1.17.4 REP3-084] y gwyddys fod adar drycin Manaw yn cael eu denu i olau a'u bod yn gallu cael eu drysu hefyd, er enghraifft o ganlyniad i'r golau ar frig tyrbin gwynt. Gwnaethant esbonio na ellir modelu'r risg gwrthdrawiad ychwanegol hon ar hyn o bryd ac nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sydd ar gael i feintioli'r risg honno. Roedd y ddau yn fodlon bod y model risg gwrthdrawiad mor gadarn ag y gall fod ar hyn o bryd. | Mae'r ExA yn nodi nad yw'r mater hwn wedi cael ei ddatrys gyda'r RSPB Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ni wnaeth RSPB Cymru sylw pellach ar y mater hwn, er ei fod wedi'i nodi fel na chytunwyd arno o fewn SoCG Dyddiad Cau 2 [REP2-088]. | |
| **Dosrannu effeithiau** | | | |
| 3.3.3 | Adar sy'n cael seibiant o fridio | Holodd CNC (C) [RR-011] a'r JNCC [RR-033] b'un a oedd adar sy'n cael seibiant o fridio wedi cael eu heithrio o'r effeithiau dosrannu yn ystod y tymor brydio. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd [PDA-008] fod adar sy'n cael seibiant o fridio wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad a diwygiodd yr adroddiad technegol dosrannu yn unol â hynny [REP2-022]. Croesawodd y JNCC [REP2-097] a'r CNC (C) [REP3-090] yr eglurhad. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |
| 3.3.4 | PVA | Cynghorodd CNC (C) [REP1-056] pe byddai unrhyw ddiweddariadau i'r asesiad yn ystod yr Archwiliad yn arwain at effaith bosibl o fwy nag 1% o farwolaethau sylfaenol yn y boblogaeth berthnasol, dylid ystyried cynnal PVA.<br>Cyflwynodd Adran 1.6 'Gwybodaeth ategol am adareg alltraeth yn unol â chyngor yr SNCB' [REP3-059], a gyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau 3, ganlyniadau PVA ar gyfer safleoedd a nodweddion (gwylogod, llursod, huganod y gogledd a gwylanod cefnddu mwyaf) lle y canfuwyd bod y cynnydd mewn marwolaethau sylfaenol o ganlyniad i effeithiau ar y cyd yn fwy nag 1% wrth ystyried yr ystod dadleoli a marwolaethau uchaf a argymhellir gan yr SNCBau. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi'i ddatrys. |
| **AGA Bae Lerpwl – Dadleoli trochyddion gyddfgoch a môr-hwyaid duon** | | | |
| 3.3.5 | Dadleoli trochyddion gyddfgoch – adar yn mudo | Nid oedd y JNCC [RR-033] [REP1-066] yn cytuno y gellir eithrio adar sy'n mudo o gasgliadau y tu allan i'r tymor bridio oherwydd byddai unrhyw adar sy'n bresennol yn yr AGA yn rhai nad ydynt yn bridio.<br>Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] nad oedd Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA [APP-033] yn glir. Cadarnhaodd fod yr holl drochyddion gyddfgoch a welwyd o fewn y coridor ceblau wedi cael eu hasesu a | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | diweddarodd yr Adroddiad Sgrinio HRA [REP2-012] a diwygiodd Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA [REP2-010] yn unol â hynny.<br>Nid oedd y JNCC [REP1-066] o'r farn y byddai trochyddion gyddfgoch yn bresennol mewn niferoedd a dwyseddau digonol yn ystod misoedd yr haf (mis Ebrill tan fis Medi) i effeithio ar Amcanion Cadwraeth y safle. | |
| 3.3.6 | Cyfyngiad gosod ceblau | Cynigiodd yr Ymgeisydd gyfyngiad o beidio â gosod ceblau allforio alltraeth o fewn AGA Bae Lerpwl yn ystod y cyfnod 1 Tachwedd – 31 Mawrth (Tabl 1.6 o Adroddiad SPA Cam 2 yr HRA [APP-033]). Diben hyn oedd osgoi effeithiau niweidiol ar drochyddion gyddfgoch a môr-hwyaid duon yr AGA a byddai'n cael ei sicrhau trwy'r ML annibynnol gan CNC ar gyfer yr asedau trosglwyddo (fel yr amlinellir yn y ddogfen Egwyddorion Trwydded Forol [APP-195]) (ar y sail bod y gweithgaredd adeiladu o fewn AGA Bae Lerpwl yn berthnasol i'r Drwydded Forol Asedau Trawsyrru yn unig). Byddai hefyd yn cael ei reoli trwy'r EMP Alltraeth (wedi'i sicrhau o fewn y drwydded forol dybiedig yn Atodlen 14 i'r DCO drafft) ac yn cael ei gwblhau'n derfynol yn unol â'r Mesurau i Atal Llongau sy'n Teithio rhag Aflonyddu ar Famaliaid Môr ac Adar sy'n Ymgasglu ar y Dŵr Gymaint â Phosibl [APP-203].<br><br>**Eglurder ynghylch mesurau**<br>Gofynnodd JNCC [REP1-066] am eglurhad ynghylch y mesurau i leihau'r effeithiau ar famaliaid morol ac adar rafftio (fel y disgrifir yn 'Mesurau i leihau aflonyddwch i famaliaid morol ac adar rafftio o longau tramwy' [APP-203] a'r Cynllun reoli traffig cychod amlinellol [APP-200]); yn arbennig pa fesurau sy'n ymwneud â pha weithgaredd neu dderbynnydd. Holodd ymhellach am ddatganiadau gwrthgyferbyniol ymddangosiadol o fewn [APP-203] yn Ddyddiad Cau 3 [REP3-084]. | *C a) Mae'r Ymgeisydd yn haeru nad oes angen EMP amlinellol. Mae'r ExA yn nodi bod Rhan e) o bwynt 18 o'r amodau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 14 i'r DCO drafft yn cyfeirio'n benodol at y ddogfen ardystiedig 'Mesurau i leihau aflonyddwch i famaliaid morol ac adar rafftio gan longau tramwy'. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y cyfyngiad gosod cebl. A all JNCC a CNC (A) ymhelaethu ymhellach pam nad yw hyn yn ddigon i sicrhau'r lliniaru angenrheidiol?*<br><br>*C.b) Lle mae'r coridor cebl allforio yn croesi* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Darparodd yr Ymgeisydd eglurhad yn [REP2-081] a diweddarodd 'Mesurau i leihau aflonyddwch i famaliaid morol ac adar rafftio o longau tramwy' yn Ddyddiad Cau 3 [REP3-020].<br><br>**Amod DCO**<br>Croesawodd CNC (C) [REP1-056] a'r JNCC [REP1-066][REP2-097][REP1-066] gynnwys y cyfyngiad, ond roeddent hefyd yn credu y dylai gael ei sicrhau yn y DCO. Cynghorodd y JNCC [REP3-086] a CNC (C) [REP3-090] "*gan fod y DCO yn caniatáu'r holl weithgareddau a gwaith sy'n berthnasol i'r prosiect, dyna'r caniatâd rheoli ar gyfer y prosiect a dylai sicrhau bod y mesurau lliniaru sy'n ofynnol yn cael eu sicrhau trwy nodi beth yw'r gofyniad*".<br>Nododd CNC (C) nad yw'r cyfyngiad wedi'i gynnwys yn y rhestr o wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr EMP yn Rhan e) pwynt 18 yr amodau a restrir yn Rhan 2 Atodlen 14 y DCO drafft. Gofynnodd CNC (A) [REP4-105] am eglurder gan yr Ymgeisydd ynghylch a yw'r gorgyffwrdd rhwng y drwydded forol (ML) a'r DCO dML ar gyfer yr ardaloedd Asedau Cynhyrchu yn bodoli.<br>Darparodd JNCC gyngor ar eiriad DCO [REP3-084 a REP3-086]. Fodd bynnag, nid oedd yr Ymgeisydd [REP4-047][REP4-050] yn cytuno bod angen newidiadau i ddrafftio dML y DCO.<br><br>Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y dML a'r TA ML yn gorgyffwrdd, fodd bynnag byddai'r rhan o fewn SPA Bae Lerpwl yn dod o dan y TA ML. Dywedodd mai'r rheswm am y gorgyffwrdd yw nad yw lleoliad y llwyfannau is-orsafoedd alltraeth o fewn yr ardal arae yn hysbys ar hyn o bryd ac nid yw maint y trosglwyddiad TA i'r Perchennog Trawsyrru Ar y Môr (OFTO) ychwaith. Dywedodd fod y DCO yn darparu'r caniatâd datblygu sydd ei angen ar gyfer prosiect Mona, fodd bynnag mae'r trwyddedau morol lle mae'r rheolaethau penodol sy'n ymwneud ag amrywiol elfennau'r prosiect wedi'u sicrhau trwy'r | *AGA Bae Lerpwl/Bae Lerpwl, a all yr Ymgeisydd esbonio pam nad yw'n bosibl ychwanegu cyfyngiadau tymhorol rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth fel is-fwled newydd yn amod dML 18 (e)? A fyddai goblygiadau penodol ar gyflawni prosiectau y dylai'r ExA fod yn ymwybodol ohonynt?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynlluniau rheoli perthnasol a manylion i'w cymeradwyo gan Dîm Trwyddedu Morol CNC (MLT).<br><br>**Amlinelliad o'r EMP**<br><br>Gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd ddarparu EMP amlinellol i roi sicrwydd y byddai'r mesur yn cael ei sicrhau [C1.10.12 PD-013]. Nid oedd yr Ymgeisydd [REP3-062] o'r farn bod hyn yn angenrheidiol gan fod mesurau allweddol i'w cynnwys ynddo wedi'u manylu'n llawn yn y 'Mesurau i Atal Llongau sy'n Teithio rhag Aflonyddu ar Famaliaid Môr ac Adar sy'n Ymgasglu ar y Dŵr Gymaint â Phosibl' [REP3-020].<br><br>Roedd CNC (C) a'r JNCC yn anghytuno â'r Ymgeisydd [C1.10.12 REP3-093 a REP3-084]. Dywedodd CNC (C) pe gellid cynnwys y cyfyngiad ar amseru gweithgareddau gosod ceblau mewn EMP Alltraeth amlinellol, fe allai fod yn fodlon y byddai'r mesur yn cael ei sicrhau. Cynghorodd y JNCC petai EMP amlinellol yn cael ei gyflwyno, byddai hyn yn rhoi mwy o hyder i'r JNCC y byddai AEoI yn cael eu hosgoi ar yr AGA. | |
| 3.3.7 | Cyfyngiad ar osod ceblau – llain glustogi | Cynghorwyd y JNCC [RR-033] y dylai cyfyngiad arfaethedig yr Ymgeisydd ar osod ceblau gael ei ymestyn i o fewn 2.5km o ffin yr AGA.<br><br>Nid oedd yr Ymgeisydd [PDA-008] o'r farn y byddai llain glustogi ychwanegol yn lleihau maint yr effaith gan fod dwysedd rhagfynedig môr-hwyaid duon a throchyddion gyddfgoch yn sylweddol lai tuag at ffin yr AGA (gweler Ffigur 1.5 ac 1.9 [APP-033]). Yn ogystal, rhagfynegodd yr Ymgeisydd ddim AEoI gyda'r llain glustogi neu hebddi.<br><br>Wedi hynny, cytunodd y JNCC [REP1-066][REP2-097] y gellid dod i gasgliad o ddim AEoI heb gymhwyso cyfyngiad tymhorol i lain glustogi o amgylch yr AGA. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.3.8 | Cyfyngiad ar osod ceblau – gwaith di-ffos wrth y glanfeydd | Holodd CNC (C) [RR-011] pam na fyddai cyfyngiad arfaethedig yr Ymgeisydd ar osod ceblau o fewn AGA Bae Lerpwl yn ystod y cyfnod 1 Tachwedd – 31 Mawrth yn berthnasol i waith di-ffos ar y parth rhynglanw (a fyddai'n golygu bod angen hyd at wyth o symudiadau llongau wrth y lanfa yn ystod y gaeaf). Datganodd yr Ymgeisydd [PDA-008] fod hyn wedi cael ei drafod gyda CNC (C) yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio oherwydd (ymhlith pethau eraill), byddai'r aflonyddwch dros dro; byddai cynefin arall ar gael; ac mae nifer y symudiadau'n fach. Roedd RSPB Cymru [REP3-105] yn cydnabod pwynt CNC (A), gan nodi bod ardal y glannau'n cynnal y fôr-hwyaid ddu sy'n gaeafu.<br>O ganlyniad, cadarnhaodd CNC (C) [[REP1-056] "*nad yw'n disgwyl i'r gweithgarwch dros dro hwn yn rhan o'r cam adeiladu arwain at Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd Safle (AEoSI) ar gyfer nodweddion adar dŵr sy'n gaeafu AGA Bae Lerpwl".*<br>Er hynny, diwygiwyd y Cynllun Rheoli Traffig Llongau Amlinellol erbyn Dyddiad Cau 3 [REP3-018] i ddatgan y byddai'r mesur yn berthnasol wrth fynedfa/allanfa'r gwaith gosod techneg ddi-ffos wrth y lanfa.<br>Ceisiodd y JNCC [REP1-066] eglurhad ynglŷn â llwybrau llongau yn ystod y gwaith rhynglanw hwn hefyd. Dywedodd yr Ymgeisydd [REP2-081] na wyddys ar hyn o bryd ble y bydd llongau'n teithio ohoni/iddi, ond y byddai llongau allweddol sy'n teithio i Goridor Ceblau Alltraeth ac Ardal Aráe Mona o fewn a'r tu allan i AGA Bae Lerpwl yn defnyddio llwybrau teithio rheolaidd. Manylwyd ar hyn yn y Cynllun Rheoli Traffig Llongau Amlinellol [APP-200]. Lle y bo'n bosibl, byddai'r rhain yn dilyn llwybrau morgludiant sefydledig o fewn Bae Lerpwl a/neu ddynesfeydd siartredig i borthladdoedd a harbyrau.<br>Roedd JNCC [REP4-099] o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai tramwyfeydd cychod yn gyfan gwbl o fewn y llwybrau llongau presennol. Oherwydd ansicrwydd o ran llwybr cychod, roedd o'r farn bod tarfu ar y trochydd gyddfgoch a'r fôr-hwyaid ddu yn debygol ac ni | *C. A all yr Ymgeisydd gadarnhau a yw'n bwriadu diwygio'r ddogfen Mesurau i Leihau Aflonyddwch i Famaliaid Morol Ac Adar Rafftio O Longau Trosiannol [REP3-020], yn unol â chyngor y JNCC?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | allai ddiystyru AEoI. Dywedodd y gellid diystyru AEoI drwy osgoi gwaith ar y lanfa rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.<br>Cynghorodd hefyd y dylid diwygio'r ddogfen Mesurau i Leihau Aflonyddwch i Famaliaid Morol A Rafftio Adar o Longau Trosiannol [REP3-020], i'w gwneud yn glir bod y cyfyngiad tymhorol yn berthnasol i waith glanfeydd. | |
| 3.3.9 | Gwaith cyn cychwyn, arolygon UXO a chychod clirio a gwarchod | Ar Ddyddiad Cau 4, holodd JNCC [REP4-099] a CNC [REP4-105] a fyddai'r mesurau i leihau aflonyddwch i adar rafftio yn berthnasol i weithgareddau cyn cychwyn. Nodwyd y potensial ar gyfer cynnal arolygon cyn-adeiladu anymwthiol cyn cychwyn, a bod gofynion lliniaru CRhA ar y Môr yn Amod 18(1)(e) Atodlen 14 drafft DCO yn berthnasol i'r cyfnod adeiladu a gweithredu yn unig. Roeddent o'r farn nad oedd symudiadau cychod sy'n gysylltiedig ag ymdrechion arolwg cyn-adeiladu wedi'u hystyried yn llawn a dywedasant na allai ddiystyru AEoI.<br>Bu JNCC [REP4-099] hefyd yn ystyried y potensial ar gyfer effeithiau andwyol o symudiadau cychod sy'n gysylltiedig ag arolygon a chlirio UXO, yn ogystal â'r rhai sydd eu hangen ar gyfer 'gwarchod' ceblau sydd heb eu diogelu hyd yma, yn enwedig o'u cyfuno â symudiadau cychod eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect, ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Nododd CNC [REP4-105] yn yr un modd y gallai gweithgareddau clirio UXO achosi aflonyddwch a gofynnodd am gyfyngiadau tymhorol o fewn yr SPA.<br>Roedd y JNCC o'r farn nad oedd arolygon cyn-adeiladu a gwarchod symudiadau cychod wedi'u hasesu'n llawn gan yr Ymgeisydd.<br>Dywedodd y JNCC y gellid diystyru AEoI drwy gyfyngu ar waith cyn cychwyn (gan gynnwys arolygon UXO) a chlirio UXO o fewn SPA Bae Lerpwl rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth yn y DCO drafft. Gofynnodd hefyd i'r DCO Atodlen 14 Amod 21 (sy'n gwahardd clirio UXO rhag | *C. Mae'r ExA yn deall nad yw'r Ymgeisydd yn dymuno cyfyngu ar weithgareddau o'r fath yn SPA Bae Lerpwl ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. A all yr Ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ynghylch pam ei fod yn ystyried na fyddai unrhyw AEoI yn digwydd o'r gweithgareddau hyn?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cychwyn nes bod nifer o ofynion wedi'u bodloni) yn cael ei ddiwygio i gynnwys arolygon UXO.<br>Argymhellodd ymhellach y byddai'n well cyfyngu ar symudiadau cychod gwarchod o fewn 'Mesurau i Leihau Amhariad i Famaliaid Morol Ac Adar yn Rafftio o Gychod Tramwy' [REP3-020].<br>Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP4-062] fod y cyfyngiad tymhorol a amlinellwyd yn y Mesurau i leihau aflonyddwch i famaliaid morol ac adar rafftio o longau tramwy [REP3-020] yn cwmpasu gosod ceblau allforio yn unig. Nododd y byddai gweithgareddau yn ystod y tymor hwn o'r flwyddyn yn annhebygol oherwydd y tywydd mwy heriol, ond roedd angen hyblygrwydd i wneud gwaith cyn-adeiladu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, er mwyn osgoi effeithiau ar raglen cyflawni'r prosiect. | |
| **AGA Ynysoedd Scilly** | | | |
| 3.3.10 | PVA – Gwylanod cefnddu mwyaf | Roedd y JNCC [RR-033] [REP1-066] o'r farn bod cyfraddau twf rhagfynedig yr Ymgeisydd ar gyfer gwylanod cefnddu mwyaf yn groes i'r tueddiadau cyffredinol ym mhoblogaethau'r Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Byd. Argymhellodd fod synnwyr mewnbynnau ac allbynnau'r PVA yn cael ei wirio. Mynegodd RSPB Cymru [RR-071] bryder ynglŷn â'r dirywiad ym mhoblogaeth y rhywogaeth hefyd.<br>Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] fod y boblogaeth wedi lleihau ychydig yn Lloegr, ond cadarnhaodd ei fod wedi defnyddio amcangyfrifon cynhyrchedd gan y JNCC a chyfraddau goroesi a argymhellir gan SNCBau.<br>Diolchodd y JNCC [REP2-097] i'r Ymgeisydd am egluro. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |
| **Ffliw Adar Pathogenig Iawn (HPAI)** | | | |
| 3.3.11 | HPAI | Dywedodd RSPB Cymru [RR-071] nad oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried effeithiau posibl HPAI a bod angen i'r asesiad fod yn | Mae'r ExA yn nodi nad yw'r mater hwn wedi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhagofalus iawn o ganlyniad i'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â phoblogaethau'r dyfodol.<br>Ymatebodd yr Ymgeisydd [PDA-008] drwy ddweud ei fod wedi ystyried HPAI yn ei ddogfennau cais ac esboniodd fod yr arolwg digidol sylfaenol o'r awyr wedi cael ei gynnal cyn yr achosion HPAI. Pan fu gostyngiadau mewn digonedd rhywogaethau penodol, ystyriodd yr Ymgeisydd y byddai'r asesiadau o'r effaith a gyflwynir yn lleihau yn gymesur yn unol â phoblogaeth lai (lle y bo'n berthnasol). Dywedodd ei fod wedi dilyn canllawiau Natural England ac wedi cytuno ar ei ymagwedd gyda'r JNCC, CNC a Natural England.<br>Hyd at y Dyddiad Cau 4 ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau HRA pellach gan RSPB Cymru. Mae'r mater wedi'i nodi fel pwynt trafod parhaus o fewn y SoCG Dyddiad Cau 2 [REP2-088]. | cael ei ddatrys gyda'r RSPB Cymru. |
| **Ar y cyd** | | | |
| 3.3.12 | Cynnwys prosiectau â chynnydd >0.05% yn y gyfradd marwolaethau sylfaenol | Ceisiodd y JNCC [RR-033] [REP1-066] gyfiawnhad ynglŷn â phriodoldeb cynnal asesiadau ar y cyd ar gyfer AGAau/safleoedd Ramsar y byddai'r prosiect ar ei ben ei hun yn cynyddu'r gyfradd marwolaethau >0.05% ynddynt yn unig (gweler paragraff 3.2.8 y RIES hwn).<br>Roedd CNC (C) [RR-011] o'r farn y gallai'r ymagwedd hon fod yn briodol i'r prosiect hwn. Er hynny, o ystyried y pryderon ynglŷn â'r asesiad ar gyfer y prosiect ar ei ben ei hun, cynghorodd y dylid ailystyried y safleoedd a'r rhywogaethau a symudwyd ymlaen ar gyfer asesiad ar y cyd cyn i unrhyw ddiweddariadau gael eu gwneud.<br>Esboniodd yr Ymgeisydd [PDA-008] y byddai effeithiau 'ansylweddol' yn gyfystyr ag effaith ddibwys ar raddfa AEA. Defnyddiwyd yr ymagwedd hon mewn HRAau ar lefel Cynllun a cheisiadau gwynt alltraeth eraill. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Wedi hynny, cytunodd y JNCC [REP2-097] fod yr ymagwedd hon yn briodol i'r prosiect hwn, lle mae effeithiau rhagfynedig o'r prosiect ar ei ben ei hun yn debygol o fod yn fach iawn. | |
| 3.3.13 | Prosiect Barcut Llanw Minesto, Prosiect Llanw Morlais a Fferm Wynt Alltraeth Arnofiol TwinHub | Amlygodd Tabl 1.3 Adroddiad AGA Cam 2 yr HRA [APP-033] brosiectau Barcut Llanw Minesto a Llanw Morlais fel prosiectau Haen 1, ond ni chynhwyswyd y prosiectau hyn yn Nhabl 1.57. Yn yr un modd, cynhwyswyd Fferm Wynt Alltraeth Arnofiol TwinHub yn Nhabl 1.3 fel prosiect Haen 2, ond nid yn Nhabl 1.57.<br>Cadarnhaodd yr Ymgeisydd [C1.10.13 REP3-062] yr amlygwyd y gallai prosiectau Barcut Llanw Minesto a Llanw Morlais arwain at effeithiau ar y cyd yn Nhabl 1.3, ond gan nad oes llwybr effaith rhyngddynt ac ACA Bae Lerpwl ac AGA Ynysoedd Scilly, ni chawsant eu cynnwys yn yr asesiad ar y cyd (fel y rhestrir yn Nhabl 1.57).<br>Esboniodd fod Fferm Wynt Alltraeth Arnofiol TwinHub wedi cael ei heithrio ar gam o Dabl 1.57 [APP-033], fel y nodwyd yn y Rhestr Gwallau [REP3-075] a gyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau 3. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |
| 3.3.14 | Amcangyfrifon digonedd yn fferm wynt alltraeth Erebus | Amlygodd y JNCC [RR-033] [REP1-066] a CNC (C) [RR-011] wallau mewn amcangyfrifon digonedd ar gyfer sawl rhywogaeth yn fferm wynt alltraeth Erebus, fel y cofnodwyd ym Mhennod 5 y Datganiad Amgylcheddol: Adareg Alltraeth [APP-057]. Cydnabu'r Ymgeisydd [PDA-008] y gwall. Cyflwynodd Restr Gwallau [REP1-044] a chywirodd y gwerthoedd ym Mhennod 5 y Datganiad Amgylcheddol: Adareg Alltraeth [REP2-016]. Cadarnhaodd nad oedd y gwahaniaeth yn newid casgliadau'r HRA.<br>Fodd bynnag, roedd y JNCC [REP2-097] a CNC (C) [REP3-090] o'r farn bod gwallau o hyd.<br>Wedi hynny, cydnabu'r Ymgeisydd fân wallau eraill a nodwyd yn y rhestr gwallau a gyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau 3 [REP3-073][REP3-075]. Roedd hefyd yn diwygio gwerthoedd yn fersiynau Dyddiad Cau 4 o 'Gwybodaeth ategol adareg alltraeth yn unol â chyngor yr SNCB' [REP4-031]. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.3.15 | Amcangyfrifon digonedd yn Estyniad Banc Burbo | Nododd y JNCC [REP2-096] na ddarparwyd gwerth blynyddol ar gyfer gwylanod coesddu o Estyniad Banc Burbo yn [REP1-044]. Cynhwyswyd hyn yn rhestr gwallau'r Ymgeisydd [REP3-073] a gyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau 3 a'r 'Wybodaeth ategol am adareg alltraeth yn unol â chyngor yr SNCB' [REP3-059]. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn nad yw'r diwygiadau a wnaed i'r dogfennau'n newid y casgliadau gwreiddiol a gyflwynwyd. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |
| 3.3.16 | Dosrannu effeithiau | Mewn ymateb i asesiad cyfun yr Ymgeisydd a gyflwynwyd yn 'Gwybodaeth ategol adareg alltraeth yn unol â chyngor SNCB' [REP3-059], dywedodd JNCC [REP4-102] a CNC (A) [REP4-105] na allent ailadrodd gwerthoedd yr Ymgeisydd a gofynnodd am fanylion ac eglurhad ychwanegol i olrhain y cyfrifiadau.<br><br>Ceisiodd y ddau ohonynt eglurder ynghylch y gwerth dosrannu dosbarth oedran a ddefnyddiwyd ar gyfer pob prosiect a ystyriwyd yn yr asesiad, a esboniodd yr Ymgeisydd yn y Dyddiad Cau 4 'Nodyn egluro dosrannu adaryddiaeth alltraeth' [REP4-042]. (Gweler hefyd ID 2.4.13 o'r RIES hwn.) Cadarnhaodd yr Ymgeisydd [REP4-031][REP4-049] ei fod wedi defnyddio cyfran yr adar llawndwf/anaeddfed yn nhablau Atodiad Furness (2015) ar gyfer ymgymryd â'r oedran-dosrannu dosbarth ar gyfer pob prosiect a ystyriwyd yn asesiad cyfunol oherwydd diffyg data safle-benodol ar gael ar gyfer pob un o'r cynlluniau neu brosiectau. Roedd o'r farn na fyddai'n gymesur tybio y byddai pob unigolyn ar bob safle yn oedolion gan ei fod yn rhagdybiaeth or-ofalus ac nad yw'n seiliedig ar unrhyw dystiolaeth wyddonol ac ni fyddai'n darparu eglurder ychwanegol ar y risg i safle penodol. Roedd o'r farn bod y dull hwn yn gynsail gan ei fod wedi'i ddefnyddio mewn nifer o geisiadau ffermydd gwynt alltraeth eraill a ganiatawyd a HRAs Lefel Cynllun Ystadau'r Goron (Rownd 4 a Rownd 5). | *C. Yn dilyn cyflwyniad Dyddiad Cau 4 yr Ymgeisydd [REP4-042] a [REP4-049], a all JNCC a CNC (A) roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu safbwyntiau mewn perthynas â dosraniad effeithiau yn yr asesiad cyfun?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.3.17 | Defnyddio cyfraddau osgoi mewn ffigurau gwrthdrawiad ar gyfer prosiectau eraill | Ceisiodd CNC (C) [RR-011] a'r JNCC [REP1-066] eglurder ynglŷn â defnyddio cyfraddau osgoi mewn ffigurau gwrthdrawiad rhagfynedig ar gyfer prosiectau eraill. Cadarnhodd yr Ymgeisydd [PDA-008] fod ffigurau gwrthdrawiad ar gyfer prosiectau eraill wedi cael eu cywiro i sicrhau 'sail gyffredin' trwy wneud cyfrifiad am yn ôl o fewn y model gwrthdrawiad Band (fel y defnyddiwyd ar gyfer Awel y Môr).<br>Cytunodd y JNCC [REP2-097] â'r egwyddor hon a chynghorodd y dylid manylu ar yr ymagwedd yn nogfennau'r HRA. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

***Tabl 3.4: Effeithiau ar y cyd (cyffredinol) – materion allweddol a godwyd yn yr Archwiliad hyd yma gan yr ExA a phartïon â buddiant***

| Rhif Cyfeirnod | Llwybr effaith posibl/mater | Manylion y mater | Sylw/cwestiwn gan yr ExA |
|---|---|---|---|
| 3.4.1 | Asedau Cynhyrchu Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan ac Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe | Gofynnodd CNC (C) [REP1-056] i'r asesiad ar y cyd gael ei ddiwygio i ystyried ceisiadau DCO Asedau Cynhyrchu Morgan a Morecambe.<br>Ar Ddyddiad Cau 3, cadarnhaodd Adolygiad yr Ymgeisydd o Asesiad Effeithiau Cronnus ac Asesiad Cyfunol [REP3-058] fod prosiectau Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan: Asedau Cynhyrchu ac Asedau Cynhyrchu Ffermydd Gwynt Alltraeth Morecambe wedi'u diweddaru o Haen 2 i Haen. 1. Cafodd y prosiectau eu cynnwys wedyn yn Adolygiad CEA adareg alltraeth 4 yr Ymgeisydd ac asesiad ar y cyd [REP4-027]. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |
| 3.4.2 | Ffermydd gwynt alltraeth Oriel ac Aráe Gogledd Môr Iwerddon | Datganodd dogfennau HRA Mona fod gwybodaeth Adroddiad Cwmpasu ar gael yn unig ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth Oriel ac Aráe Gogledd Môr Iwerddon. Nododd yr ExA [C1.10.15 PD-013] fod Cyngor Sir Meath wedi ymateb i ymgynghoriad trawsffiniol yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 [OD-021] gan nodi bod ceisiadau wedi cael eu gwneud ar gyfer y ddau brosiect hyn.<br>Nododd yr Ymgeisydd [C1.10.15 REP3-062] y gwnaed ceisiadau ar gyfer prosiect gwynt alltraeth Oriel a phrosiect gwynt alltraeth Aráe Gogledd Môr Iwerddon ym mis Mai 2024 a mis Mehefin 2024, yn ôl eu trefn. Nid oedd yr Ymgeisydd o'r farn y byddai'r wybodaeth yn newid casgliad yr asesiadau yn y cais mewn perthynas â chynefinoedd Atodiad I a physgod mudol a mamaliaid môr Atodiad II. | Mae'r ExA yn deall bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Yn dilyn hynny cafodd prosiectau Arae Oriel a Gogledd Iwerddon eu cynnwys yn Adolygiad CEA adareg alltraeth 4 yr Ymgeisydd ac asesiad mewn cyfuniad [REP4-027]. | |

## 3.4 Crynodeb o ganlyniadau'r Archwiliad o ran effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd

3.4.1 Fel y nodwyd yn Nhablau 3.1 i 3.4 uchod, mae'r ExA yn deall bod rhai materion wedi cael eu datrys, tra bod y rhai lliw ambr yn weddill o hyd. Mae'r ExA wedi ceisio diweddariadau ac ymatebion i faterion heb eu datrys gan yr Ymgeisydd, y JNCC a CNC, lle y nodwyd er mwyn egluro'r materion sy'n weddill.

3.4.2 Mae'r ExA hefyd yn croesawu cywiriadau gan unrhyw bartïon os yw wedi nodi'n anghywir bod mater wedi cael ei ddatrys.

3.4.3 Erbyn Dyddiad Cau 4, roedd yr Ymgeisydd yn parhau i gredu y gellir eithrio AEoI ar gyfer yr holl safleoedd Ewropeaidd, o'r prosiect ar ei ben ei hun ac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill [REP4-031].

3.4.4 Yn dilyn diweddariadau'r Ymgeisydd yn 'Gwybodaeth ategol adareg alltraeth yn unol â chyngor yr SNCB' [REP3-059], cadarnhaodd CNC (A) yn [REP4-105] y gellir diystyru AEoI ar gyfer y prosiect yn unig ar gyfer y canlynol safleoedd a nodweddion cymhwyso:

- Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro SPA:
  - Aderyn drycin Manaw – dadleoli;
  - pâl - dadleoli;
  - gwylan gefnddu leiaf – gwrthdrawiad;
  - gwylogod (cydran a enwyd o'r casgliad o adar môr) – dadleoli;
  - llurs (cydran a enwyd o'r casgliad o adar môr) – dadleoli;
  - gwylan goesddu (a enwir yn gydran o'r casgliad o adar môr) – gwrthdrawiad;
- AGA Gwales::
  - hugan - gwrthdrawiad, dadleoli, a gwrthdrawiad + dadleoli; a
- Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli:
  - Aderyn drycin Manaw – dadleoli.

3.4.5 Roedd yn rhoi sylwadau manwl ar bob un o'r safleoedd uchod yn Atodiad 1 o [REP4-105].

Fodd bynnag, ar adeg cyhoeddi'r RIES, dywedodd CNC (A) [REP4-105] nad oedd yn gallu dod i gasgliadau/sylwadau ar lefel arwyddocâd posibl effeithiau cyfunol ar gyfer safleoedd dynodedig Cymraeg.

*C. Yn dilyn dogfennau Dyddiad Cau 4 yr Ymgeisydd, a all CNC (A) roi sylwadau ar lefel arwyddocâd effeithiau cyfunol ar gyfer safleoedd dynodedig Cymraeg.*

3.4.6 Fel y manylir uchod, ar Ddyddiad Cau 4 ystyriodd y JNCC wallau yn parhau yn nogfennau'r Ymgeisydd a gofynnodd am ragor o eglurder gan yr Ymgeisydd.

3.4.7 Mae'r ExA felly yn deall, ar adeg cyhoeddi'r RIES hwn, nad oes cytundeb rhwng y JNCC a CNC(A) y gellir diystyru AEoI ar gyfer:

- effeithiau mewn cyfuniad ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer adareg alltraeth lle aseswyd risg gwrthdrawiad neu ddadleoli;
- AGA Bae Lerpwl - dadleoli'r trochydd gyddfgoch a'r fôr-hwyaid ddu;
- ACA Forol Gogledd Ynys Môn – effeithiau clirio UXO ar lamidyddion harbwr

*C. Yn dilyn dogfennau Dyddiad Cau 4 yr Ymgeisydd, a yw'r JNCC yn cytuno y gellir eithrio AEoI ar gyfer unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd a nodweddion cymhwyso a aseswyd gan yr Ymgeisydd, o'r prosiect yn unig neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill? A all y JNCC nodi'r safleoedd a'r nodweddion cymhwyso nad yw'n cytuno y gellir eithrio AEoI ar eu cyfer ac unrhyw agweddau ar yr asesiad y mae angen eu hegluro neu eu datblygu ymhellach?*

3.4.8 Mae'r ExA yn ymwybodol bod NatureScot yn ystyried bod gwallau yn nogfennau cais yr HRA ond nid yw wedi cymryd rhan yn yr Archwiliad ers hynny (gweler paragraffau 2.1.10 i 2.1.13 o'r RIES hwn). Mae hefyd yn nodi nad yw NE a DAERA wedi cymryd rhan yn yr Archwiliad mewn perthynas â safleoedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nid yw'r Ymgeisydd wedi dod i'r casgliad bod unrhyw AEoI o'r holl safleoedd Ewropeaidd ac nid oes unrhyw gyflwyniadau wedi'u gwneud yn nodi pryderon penodol mewn perthynas â safleoedd Ewropeaidd a leolir yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

# 4 RHANDDIRYMIADAU O'R RHEOLIADAU

## 4.1 Trosolwg

4.1.1 Ar y sail y daeth yr Ymgeisydd i'r casgliad na fyddai AEoI ar unrhyw safle Ewropeaidd o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun nac ar y cyd â phrosiectau eraill, ni chyflwynodd achos rhanddirymiad gyda'i gais DCO. Fodd bynnag, datganodd y JNCC [RR-033][REP1-066] na allai gytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd yn gynnar yn yr Archwiliad, yn arbennig mewn perthynas ag AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro.

4.1.2 Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol trosfwaol ar gyfer ynni (NPS EN-1) yn datgan y dylai Ymgeisydd ddarparu achos rhanddirymiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl a chyn diwedd yr archwiliad os bydd SNCB yn nodi yn yr archwiliad bod y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd cynefin.

4.1.3 Felly, cyhoeddodd yr ExA lythyr Rheol 17 [PD-012] yn gofyn i'r JNCC a CNC (C) gyflwyno eu safbwyntiau erbyn Dyddiad Cau 2 ynglŷn â ph'un a ellid diystyru effaith niweidiol y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol ar gyfer unrhyw safle Ewropeaidd.

4.1.4 Ymatebodd JNCC [REP2-098] i gadarnhau na allai ddiystyru AEoI y tu hwnt i amheuaeth wyddonol o hyd o ganlyniad i wallau mewn cyfrifiadau, diffyg manylion angenrheidiol, a defnyddio dulliau a pharamedrau sy'n wahanol i'r rhai a gynghorir gan SNCBau. Fodd bynnag, credai ei bod yn bosibl y gallai cyflwyniadau'r Ymgeisydd yn y dyfodol oresgyn ei bryderon.

4.1.5 Cynghorodd CNC (C) [REP2-100] fod AEoI yn annhebygol, ond ni allai gadarnhau hynny nes iddo gael cyfle i adolygu cyflwyniadau presennol ac i ddod.

4.1.6 Roedd yr Ymgeisydd [REP2-077] o'r farn nad oedd yr un o'r diweddariadau a wnaed i ddeunydd y cais HRA a ddarparwyd erbyn Dyddiad Cau 2 yn newid y casgliadau cyffredinol a wnaed, ac nid oedd ychwaith yn disgwyl y byddai unrhyw ran o'r wybodaeth ychwanegol (gan gynnwys canlyniadau'r dadansoddiad o brosiectau hanesyddol i lenwi bylchau) i'w darparu erbyn Dyddiad Cau 3 yn effeithio ar y casgliadau. Credai o hyd na fyddai AEoI o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona ar ei ben ei hun nac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, ac nid oedd o'r farn bod angen cyflwyno achos rhanddirymiad (ar sail heb ragfarnu neu fel arall).

4.1.7 Fel y nodwyd yn Adran 3.4 uchod, erbyn Dyddiad Cau 4 roedd gan CNC (A) a JNCC bryderon heb eu datrys ynghylch yr asesiad.

C. Yn seiliedig ar gyflwyniadau hyd yma efallai na fydd yn bosibl i'r awdurdod cymwys eithrio AEoI ar bob safle Ewropeaidd y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol. Fel y cyfryw, ac yn unol â'r NPS EN-1 perthnasol (paragraff 5.4.27), pe na bai'r Ymgeisydd yn gallu dod i gytundeb â CNC (A) a'r JNCC na fyddai unrhyw AEoI ar bob safle Ewropeaidd o'r prosiect yn unig neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill erbyn Dyddiad Cau 5, mae'r ExA o'r farn bod angen achos rhanddirymiadau. Mae hyn er mwyn galluogi'r ExA i archwilio'r

wybodaeth yn ystod yr Archwiliad a gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac fel bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt ar y pwynt gwneud penderfyniad.

a) Gofynnir i'r Ymgeisydd, CNC (A) a'r JNCC gadarnhau erbyn Dyddiad Cau 5 a ellir eithrio AEoI ar bob safle Ewropeaidd o'r prosiect yn unig neu ar y cyd â chynlluniau neu gellir ei eithrio.

b) Os na chadarnheir cytundeb unrhyw AEoI gyda CNC (A) neu JNCC erbyn Dyddiad Cau 5, gofynnir i'r Ymgeisydd gyflwyno achos rhanddirymiad erbyn Dyddiad Cau 6 (20 Rhagfyr 2024).